Cyngor Osteopathig Cyffredinol

Osteopathic Pre-Registration Education

# **Myfyrwyr ag Anabledd neu Gyflwr Iechyd:** Canllawiau i Ddarparwyr Addysg Osteopathig

Gorffennaf 2025



# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| 1 | **Y Cyngor Osteopathig Cyffredinol** | **3** |
| **Adran 1** | **Cyflwyniad** | **4** |
| **Adran 2** | **Ein Rôl a'n Cyfrifoldebaul** | **5** |
| **Adran 3:** | **Deddfwriaeth Cydraddoldeb – Deddf Cydraddoldeb 2010** | **7** |
| | Sut mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn effeithio ar ddarparwyr addysg osteopathig? | 7 |
| | Pa ddyletswyddau sy'n gymwys i ddarparwyr addysg osteopathig | 8 |
| | Beth sy'n cyfrif fel anabledd? | 8 |
| | Beth yw gwahaniaethu uniongyrchol? | 9 |
| | Beth yw gwahaniaethu anuniongyrchol? | 10 |
| | Beth yw gwahaniaethu sy'n deillio o anabledd? | 10 |
| | Beth yw aflonyddu? | 11 |
| | Beth yw erledigaeth? | 11 |
| | Beth yw'r ddyletswydd 'addasiadau rhesymol'? | 11 |
| | Beth yw ystyr darpariaeth, maen prawf ac arferion? | 12 |
| | Dyletswyddau Penodol o da Ddeddf Cydraddoldeb 2010 | 13 |
| | Cefnogi staff i gyflawni eu cyfrifoldebau | 13 |
| **Adran 4** | **Taith y Myfyriwr** | **14** |
| | Rhagweld anghenion pobl anabl | 14 |
| | Recriwtio a dethol | 15 |
| | Marchnata | 15 |
| | Cais | 16 |
| | Dethol | 17 |
| | Paratoi ar gyfer mynediad i gwrs ostepathig | 18 |
| | Sefydlu | 19 |
| | Cyfrinachedd | 19 |
| | Gwneud addasiadau i addysgu, dysgu ac asesu | 20 |
| | Dychwelyd i gwrs | 24 |
| | Polisïau addasrwydd i astudio | 25 |
| | Addasrwydd myfyrwyr i ymarfer | 25 |
| | Hybu llesiant | 26 |
| | Cyflawni cymhwyster cydnabyddedig | 26 |
| **Adran 5** | **Rhagor o Wybodaeth** | **27** |

# 1: Y Cyngor Osteopathig Cyffredinol

Mae llawer o bobl ag anableddau a chyflyrau iechyd hirdymor yn gallu ymgymryd ag addysg a hyfforddiant osteopathig, cyflawni cymhwyster sy'n caniatáu iddynt geisio cofrestru fel osteopath, ac ymarfer osteopathi gydag addasiadau i gefnogi eu hymarfer neu heb yr addasiadau hynny.

Fel y rheoleiddiwr statudol ar gyfer osteopathiaid yn y DU, mae'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol (GOsC) wedi ymrwymo i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant er mwyn sicrhau bod y proffesiwn osteopathig yn adlewyrchu'r gymdeithas y mae'n ei gwasanaethu. Rydym yn annog unrhyw un sydd â'r potensial i ddod yn ymarferwyr osteopathig annibynnol i ystyried gyrfa ym maes osteopathi, ac mae hyn yn cynnwys pobl ag anableddau a chyflyrau iechyd hirdymor.

Dylai darparwyr addysg osteopathig fynd ati'n rheolaidd i adolygu a diwygio eu polisïau a'u harferion, er mwyn annog y cyfranogiad ehangaf posibl mewn addysg ac ymarfer osteopathig, yn unol â **Safonau Addysg a Hyfforddiant y GOsC**.

# Adran 1: Cyflwyniad

1 Mae'r GOsC wedi ymrwymo i hyrwyddo cydraddoldeb yn ei holl swyddogaethau. Rydym am sicrhau bod y darparwyr addysg osteopathig sy'n cynnig cyrsiau yr ydym yn eu rheoleiddio nid yn unig yn bodloni eu rhwymedigaethau cyfreithiol ynghylch cydraddoldeb anabledd, ond hefyd yn meithrin cymuned ddysgu gynhwysol sy'n cwmpasu amrywiaeth o gyfranogwyr i wrthsefyll anfantais systemig. Mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn gofyn am ymrwymiad cryf a gweithredu ar y cyd i adeiladu amgylchedd cynhwysol lle mae cyfleoedd yn agored i bawb a lle gall pawb gyrraedd eu potensial yn llawn. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn ein **Deilliannau i Raddedigion a Safonau ar gyfer Addysg a Hyfforddiant**.

2 Mae'r canllawiau hyn wedi'u paratoi i gefnogi darparwyr addysg osteopathig i ddiwallu anghenion darpar fyfyrwyr a myfyrwyr cyfredol sydd ag anableddau a/neu gyflyrau iechyd, neu sy'n eu datblygu yn ystod eu hyfforddiant. Dylid eu darllen ar y cyd â'r ddogfen gydymaith i'r canllawiau hyn: **Canllawiau i Ymgeiswyr a Myfyrwyr ag Anabledd neu Gyflwr Iechyd**.

3 Mae'r canllawiau hyn yn cwmpasu ein disgwyliadau a'r dyletswyddau sy'n deillio o'r **Ddeddf Cydraddoldeb 2010** – yn benodol rhwymedigaethau cyfreithiol darparwyr addysg osteopathig tuag at ymgeiswyr a myfyrwyr sy'n bodloni'r diffiniad o fod yn 'anabl' at ddibenion y Ddeddf. Nid yw'r canllawiau yn mynd i'r afael â materion cydraddoldeb eraill fel rhywedd neu gred grefyddol (sydd bellach yn dod o dan yr un ambarél cyfreithiol ag anabledd), ac nid yw'n cwmpasu'r dyletswyddau a allai fod gan ddarparwr addysg (o dan y Ddeddf) fel cyflogwr neu'r safonau neu'r gofynion a osodir gan brifysgol ddilysu.

- **Mae adran 2** o'r canllawiau hyn yn rhoi trosolwg o'r cyd-destun rheoleiddiol trwy ailadrodd ein pwrpas a'n cyfrifoldebau.
- **Mae adran 3** yn nodi agweddau anabledd ar y ddeddfwriaeth cydraddoldeb fel y maen nhw'n gymwys i ddarparwyr addysg osteopathig.
- **Mae adran 4** yn ymdrin â materion y dylid eu hystyried ar wahanol adegau yn ystod taith y myfyriwr. Bydd hyn yn helpu darparwyr i sicrhau bod yr addysg a'r hyfforddiant osteopathig y maen nhw'n eu darparu yn diwallu anghenion myfyrwyr ag anableddau a chyflyrau iechyd, ac yn bodloni eu rhwymedigaethau cyfreithiol.
- **Mae adran 5** yn rhestru ffynonellau eraill o wybodaeth a chyngor.

# Adran 2: Ein Rôl a'n Cyfrifoldebau

4 Fel gyda phob rheoleiddiwr gofal iechyd, amcan cyffredinol y Cyngor Osteopathig Cyffredinol yw diogelu'r cyhoedd. Mae hyn yn cynnwys diogelu, hyrwyddo a chynnal iechyd, diogelwch a lles y cyhoedd; hyrwyddo a chynnal hyder y cyhoedd yn y proffesiwn osteopathi; a hyrwyddo a chynnal safonau ac ymddygiad proffesiynol priodol ar gyfer aelodau o'r proffesiwn.

5 Yn y Deyrnas Unedig mae'r teitl 'osteopath' yn cael ei ddiogelu gan y gyfraith. Mae'n drosedd, sy'n agored i erlyniad, i unrhyw un honni ei fod yn osteopath oni bai ei fod ar y Gofrestr gyhoeddus a gynhelir gan y Cyngor Osteopathig Cyffredinol.

6 Rydym yn gweithio gyda'r cyhoedd a'r proffesiwn osteopathig i hyrwyddo diogelwch cleifion trwy osod a monitro safonau ymarfer ac ymddygiad osteopathig, trwy sicrhau ansawdd addysg osteopathig, a thrwy sicrhau bod osteopathiaid cofrestredig yn ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus.

7 Rydym yn helpu cleifion sydd â phryderon neu gwynion am osteopath hefyd. Mae gan y Cyngor Osteopathig Cyffredinol y pŵer i gyfyngu cofrestriad neu dynnu oddi ar y Gofrestr unrhyw osteopath yr ydym yn barnu ei fod yn anaddas i ymarfer.

8 Mae'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol yn cydnabod cyrsiau addysg a hyfforddiant osteopathig mewn darparwyr sy'n bodloni ein safonau. Dyfernir cymhwyster cydnabyddedig i fyfyrwyr sy'n cwblhau rhaglenni o'r fath yn llwyddiannus. Mae penderfynu pwy ddylai dderbyn cymhwyster cydnabyddedig yn gyfrifoldeb pwysig i'r holl ddarparwyr addysg osteopathig, dyletswydd sy'n cael ei hystyried ymhellach yn Adran pedwar o'r canllawiau hyn. Mae cymhwyster cydnabyddedig yn gadarnhad bod y deiliad yn gallu ymarfer, heb oruchwyliaeth, i'r safonau a gyhoeddir yn ein **Safonau Ymarfer Osteopathig**.

9 Mae cymhwyster cydnabyddedig yn rhoi cymhwysedd i gofrestru fel osteopath, yn amodol ar fodloni gofynion cymeriad ac iechyd, talu'r ffi ragnodedig, a chael yswiriant indemniad proffesiynol ar waith cyn dechrau ymarfer. Fel arfer ni fydd y Cyngor Osteopathig Cyffredinol yn edrych y tu ôl i'r cymhwyster – rydym yn dibynnu ar ddarparwyr addysg osteopathig i sicrhau mai dim ond i fyfyrwyr sydd wedi bodloni ein holl safonau y dyfernir cymwysterau cydnabyddedig.

10 Wrth wneud cais i ymuno â'r Gofrestr, rhaid i ymgeisydd gyflwyno geirda iechyd gan feddyg sydd wedi ei adnabod ers pedair blynedd neu sydd â mynediad at ei gofnodion iechyd o'r pedair blynedd diwethaf. Mae'r gofyniad 'iechyd da' yn golygu:

'bod yn rhaid i chi allu ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol heb oruchwyliaeth. Nid yw'n golygu absenoldeb unrhyw anabledd neu gyflwr iechyd. Mae llawer o bobl anabl a'r rhai sydd â chyflyrau iechyd hirdymor yn gallu ymarfer gydag addasiadau neu heb addasiadau i gefnogi eu hymarfer.'

11. Mae'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol yn monitro safonau addysg a hyfforddiant mewn darparwyr addysg osteopathig trwy broses o adolygiadau rheolaidd ac adrodd blynyddol. Mae adolygiadau a gwaith monitro blynyddol yn cael ei wneud gan gyfeirio at ein safonau cyhoeddedig, gan gynnwys ein **Deilliannau i Raddedigion a Safonau ar gyfer Addysg a Hyfforddiant**.

12 Mae gofynion ynghylch cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wedi'u cynnwys ym mhob agwedd ar ein Safonau ar gyfer Addysg a Hyfforddiant. Er enghraifft:

Rhaid i ddarparwyr addysg sicrhau eu bod yn gwneud y canlynol a gallu dangos hynny:

- gweithredu ac adolygu'n barhaus proses derbyniadau agored, deg, dryloyw a chynhwysol, gyda gofynion mynediad priodol gan gynnwys cymhwysedd mewn Saesneg ysgrifenedig a llafar.
- bod â pholisïau cydraddoldeb ac amrywiaeth ar waith mewn perthynas ag ymgeiswyr, a bod y rhain yn cael eu gweithredu a'u monitro'n effeithiol.
- sicrhau bod y diwylliant dysgu yn deg, yn ddiduedd, yn gynhwysol ac yn dryloyw, ac yn seiliedig ar egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth (gan gynnwys ymwybyddiaeth gyffredinol o gynhwysiant, addasiadau rhesymol a rhagweld anghenion unigolion amrywiol). Rhaid iddo fodloni gofynion yr holl ddeddfwriaeth berthnasol a rhaid iddo fod yn gefnogol ac yn groesawgar.
- sicrhau, mewn perthynas â chanlyniadau clinigol, y dylai darparwyr addysg wneud yn siŵr bod yr adnoddau sydd ar gael yn ystyried anghenion amrywiol myfyrwyr mewn ffordd ragweithiol.
- sicrhau bod adeiladau'n hygyrch i gleifion, myfyrwyr ac osteopathiaid.
- sicrhau bod anghenion amrywiol myfyrwyr yn cael eu parchu a'u hystyried ym mhob agwedd ar y rhaglen.

# Adran 3: Deddfwriaeth Cydraddoldeb – Deddf Cydraddoldeb 2010

13 Mae'r adran hon yn darparu gwybodaeth am ddeddfwriaeth cydraddoldeb anabledd sy'n gymwys i addysg a hyfforddiant osteopathiaid. Mae'n hanfodol bod darparwyr addysg osteopathig yn deall eu cyfrifoldebau o dan y ddeddfwriaeth ac yn adolygu a diwygio eu polisïau a'u harferion yn rheolaidd yn unol â hynny.

14 Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 (Y Ddeddf) yn gymwys i Gymru, Lloegr a'r Alban; mae deddfwriaeth gwrth-wahaniaethu ar wahân ar waith yng Ngogledd Iwerddon.

15 Mae'r Ddeddf yn gwahardd darparwyr addysg rhag aflonyddu, erlyn neu wahaniaethu yn erbyn:

- darpar fyfyrwyr mewn perthynas â threfniadau derbyn
- myfyrwyr y sefydliad, gan gynnwys y rhai sy'n absennol neu wedi'u heithrio dros dro
- cyn-fyfyrwyr (os oes perthynas barhaus yn seiliedig ar y ffaith eu bod wedi bod yn fyfyriwr yn y darparwr addysg)
- pobl sy'n cael eu hystyried yn 'anabl' at ddibenion y Ddeddf nad ydynt yn fyfyrwyr yn y darparwr addysg ond sydd â chymwysterau a roddwyd gan y darparwr neu sydd wedi gwneud cais am gymwysterau

16 Os yw person yn credu ei fod wedi profi gwahaniaethu, aflonyddu neu erlyn gan ddarparwr addysg ar sail un o naw nodwedd warchodedig y Ddeddf, gall wneud hawliad o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

## Sut mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn effeithio ar ddarparwyr addysg osteopathig?

17 Bydd darparwyr addysg osteopathig sydd yn brifysgolion yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Ddeddf Cydraddoldeb sy'n gymwys i ddarparwyr addysg bellach ac addysg uwch. Bydd darparwyr addysg nad ydynt yn brifysgolion neu sefydliadau addysg bellach neu addysg uwch yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Ddeddf sy'n llywodraethu gweithgareddau darparwyr gwasanaethau. Yn ogystal, gellir ystyried darparwyr nad ydynt yn brifysgolion ond sy'n darparu cyrsiau gradd wedi'u dilysu gan brifysgol, fel asiant y brifysgol o dan y Ddeddf ac felly gallant fod yn ddarostyngedig yn anuniongyrchol i'r darpariaethau sy'n llywodraethu sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch. Er gwaethaf y gwahaniaethau hyn o ran statws, bydd dyletswyddau'r holl ddarparwyr addysg osteopathig o dan y Ddeddf Cydraddoldeb yn debyg iawn, ac ar y cyfan nid oes unrhyw wahaniaeth yn cael ei wneud yn y canllawiau hyn o ran y dyletswyddau sy'n ddyledus gan wahanol fathau o ddarparwyr. Fodd bynnag, mae un gwahaniaeth pwysig – dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus.

18 Bydd darparwyr addysg osteopathig sydd yn brifysgolion, neu ddarparwyr addysg bellach neu addysg uwch o fewn ystyr y Ddeddf Cydraddoldeb, yn ddarostyngedig i ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus. Mae hyn yn ddyletswydd gyffredinol sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus gymryd camau nid yn unig i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, ond i fynd ati i hyrwyddo cyfle cyfartal hefyd a meithrin cydberthnasoedd da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig benodol a phobl nad ydynt yn ei rhannu. Mae dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus yn gymwys hefyd i gyrff preifat a gwirfoddol mewn perthynas ag unrhyw swyddogaethau cyhoeddus y maen nhw'n eu cyflawni.

19 Mae'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol wedi ymrwymo i hyrwyddo cydraddoldeb ac arferion gorau mewn perthynas â gwrth-wahaniaethu yn y darparwyr addysg osteopathig sy'n cynnig cyrsiau rydym yn eu rheoleiddio. Ni allwn, drwy'r canllawiau hyn, newid rhwymedigaethau sefydliadau addysg o dan y Ddeddf Cydraddoldeb gan mai nhw a neb arall sydd yn gyfrifol amdanynt, ond rydym o'r farn ei bod yn briodol cymhwyso ein disgwyliadau o arferion gorau yn unffurf i bob darparwr addysg osteopathig, waeth beth fo'u cyfansoddiad neu eu statws corfforaethol, a bydd ein Safonau ar gyfer Addysg a Hyfforddiant yn gymwys i holl Gymwysterau Cydnabyddedig y GOsC.

## Pa ddyletswyddau sy'n gymwys i ddarparwyr addysg osteopathig?

20 Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn amddiffyn myfyrwyr rhag gwahaniaethu neu aflonyddu ar sail **'nodwedd warchodedig'**, ac yn eu hamddiffyn rhag erledigaeth hefyd. Mae anabledd yn nodwedd warchodedig.

21. Mae gwahaniaethu anghyfreithlon yn cynnwys:

- gwahaniaethu uniongyrchol (gan gynnwys gwahaniaethu ar sail canfyddiad neu gysylltiad)
- gwahaniaethu anuniongyrchol
- gwahaniaethu sy'n deillio o anabledd
- methu â gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer pobl anabl.

## Beth sy'n cyfrif fel anabledd?

22 At ddibenion y Ddeddf Cydraddoldeb, mae gan berson anabledd os oes ganddo amhariad corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith andwyol sylweddol a hirdymor ar ei allu i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd. Nid oes angen i berson gael diagnosis meddygol am ei amhariad – yr hyn sy'n bwysig yw effaith yr amhariad.

23 Mae profion y gellir eu cymhwyso i benderfynu a oes gan rywun nodwedd warchodedig anabledd yn cynnwys y canlynol:

- yr amser y mae effaith y cyflwr wedi parhau neu y bydd yn parhau – rhaid iddo fod yn hirdymor: hynny yw, mae wedi parhau am o leiaf 12 mis, mae'n debygol o barhau am o leiaf 12 mis, neu mae'n debygol o barhau am weddill bywyd y person
- a yw effaith yr amhariad yn golygu bod pethau'n anoddach a/neu yn cymryd llawer o amser i berson gyflawni gweithgaredd, o gymharu â rhywun nad oes ganddo'r amhariad, ac a yw hyn yn achosi mwy nag anghyfleustra dinod neu ddibwys
- a yw'r cyflwr yn cael yr effaith hon heb ystyried effaith unrhyw feddyginiaeth y mae'r person yn ei chymryd, neu unrhyw gymhorthion neu gymorth neu addasiadau sydd ganddo, fel cadair olwyn neu feddalwedd benodol ar ei gyfrifiadur (ac eithrio gwisgo sbectol neu lensys cyffwrdd – yn yr achos hwnnw, yr effaith pan fo'r person yn gwisgo'r sbectol neu'r lensys sy'n cael ei hystyried.

24 Gall ‘amhariad’ gynnwys, er enghraifft, cyflyrau meddygol hirdymor fel asthma a diabetes, a chyflyrau cyfnewidiol neu gynyddol fel arthritis gwynegol. Mae’n cynnwys cyflyrau iechyd meddwl (fel anhwylder deubegynol, iselder neu anhwylderau bwyta), anawsterau dysgu (fel dyslecsia), ac anableddau dysgu (fel rhai cyflyrau sbectrwm awtistig). Mae rhai pobl, gan gynnwys y rhai sydd â chanser, sglerosis ymledol a HIV/AIDS, yn cael eu hamddiffyn yn awtomatig fel ‘pobl anabl’ gan y Ddeddf. Bydd pobl ag anffurfiad difrifol yn cael eu hamddiffyn fel anabl heb orfod dangos ei fod yn cael effaith andwyol sylweddol ar weithgareddau o ddydd i ddydd. Mae cyflyrau cynyddol a’r rhai sydd ag effeithiau cyfnewidiol neu fynych, gan gynnwys cyflyrau iechyd meddwl fel iselder, yn cael eu cynnwys hefyd ar yr amod eu bod yn bodloni’r prawf o gael effaith niweidiol sylweddol a hirdymor ar allu person i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd. Mae’r Ddeddf yn amddiffyn pobl sydd wedi bodloni’r diffiniad yn y gorffennol hefyd.

25 Mae cyflyrau iechyd meddwl hirdymor yn cael eu hystyried yn anableddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae gan ddarparwyr addysg, felly, ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol i fyfyrwyr â chyflyrau iechyd meddwl hirdymor. Hyd yn oed mewn achosion lle nad yw iechyd meddwl myfyriwr wedi’i gwmpasu gan y Ddeddf, byddai’n dal i gael ei ystyried yn arfer gorau i wneud addasiadau rhesymol i gefnogi myfyrwyr i gael cymhwyster yn llwyddiannus ac ymarfer osteopathi yn ddiogel.

26 Mae nifer o eithriadau i’r diffiniad. Er enghraifft, nid yw dibyniaeth ar gyffuriau ac alcohol yn cael eu hystyried yn amhariadau meddyliol neu gorfforol at ddibenion y Ddeddf.

## Beth yw gwahaniaethu uniongyrchol?

27 Mae **gwahaniaethu uniongyrchol** yn digwydd os yw myfyriwr yn cael ei drin yn llai ffafriol na myfyriwr arall oherwydd anabledd. Er mwyn i fyfyriwr ddangos ei fod wedi profi gwahaniaethu uniongyrchol, byddai’n rhaid iddo gymharu’r hyn a ddigwyddodd iddo â’r hyn a ddigwyddodd, neu a fyddai’n digwydd, i fyfyriwr heb ei anabledd.

28 Mae’r Ddeddf yn cynnwys darpariaethau sy’n galluogi darparwyr addysg i gymryd ‘camau cadarnhaol’ i fynd i’r afael ag anfantais benodol, diwallu anghenion gwahanol neu fynd i’r afael â chyfranogiad isel grŵp penodol o fyfyrwyr, ar yr amod bod amodau penodol yn cael eu bodloni. Nid yw camau cadarnhaol o’r fath yr un peth â gwahaniaethu cadarnhaol, sy’n anghyfreithlon, gyda dau eithriad:

- Nid yw byth yn anghyfreithlon trin myfyrwyr neu ymgeiswyr anabl yn fwy ffafriol na myfyrwyr neu ymgeiswyr nad ydynt yn anabl, oherwydd eu hanabledd neu mewn perthynas â’u hanabledd.
- Nid yw’n anghyfreithlon ychwaith trin myfyriwr benywaidd yn fwy ffafriol oherwydd ei bod yn feichiog, neu wedi rhoi genedigaeth yn ystod y chwe wythnos ar hugain diwethaf, neu ei bod yn bwydo babi ar y fron sydd yn chwe wythnos ar hugain oed neu’n iau.

29 Mae mathau eraill o wahaniaethu uniongyrchol yn cynnwys:

**Gwahaniaethu ar sail cyswllt:** Mae hyn yn digwydd pan fydd myfyriwr yn cael ei drin yn llai ffafriol oherwydd ei gyswllt â pherson arall sydd â nodwedd warchodedig (heblaw beichiogrwydd a mamolaeth). Gallai hyn ddigwydd pan fo myfyriwr yn cael ei drin yn llai ffafriol oherwydd bod gan riant, brawd neu chwaer neu ffrind nodwedd warchodedig.

**Gwahaniaethu ar sail canfyddiad:** Mae hyn yn digwydd pan fydd myfyriwr yn cael ei drin yn llai ffafriol oherwydd canfyddiad anghywir bod ganddo nodwedd warchodedig (heblaw beichiogrwydd a mamolaeth).

**Gwahaniaethu oherwydd beichiogrwydd a mamolaeth:** Mae'n achos o wahaniaethu i drin rhywun (gan gynnwys myfyriwr) yn llai ffafriol oherwydd ei fod yn feichiog, wedi rhoi genedigaeth yn ystod y 26 wythnos diwethaf neu'n bwydo babi ar y fron sy'n 26 wythnos neu'n iau. Mae'n achos uniongyrchol o wahaniaethu ar sail rhyw i drin unigolyn (gan gynnwys myfyriwr) yn llai ffafriol oherwydd ei bod yn bwydo plentyn ar y fron sy'n fwy na 26 wythnos oed.

## Beth yw gwahaniaethu anuniongyrchol?

30 Mae gwahaniaethu anuniongyrchol yn digwydd os, wrth gymhwyso 'darpariaeth, maen prawf neu arferion' (gweler isod) yn yr un modd ar gyfer pob myfyriwr, mae'n cael yr effaith o roi myfyrwyr ag anableddau a/neu gyflyrau iechyd dan anfantais benodol, waeth a oedd hyn wedi'i fwriadu ai peidio. Nid yw'r hyn sy'n cyfrif am 'anfantais' wedi'i ddiffinio yn y Ddeddf, ond rheol gyffredinol yw y byddai person rhesymol yn ystyried bod anfantais wedi digwydd. Gall ddigwydd ar sawl ffurf, er enghraifft gwrthod cyfle neu ddewis, atal, gwrthod neu allgáu.

31 Gellir cyfiawnhau rhai polisïau ac arferion os ydynt yn ffordd gymesur o gyflawni nod dilys, ar yr amod nad yw'r nod cyfreithiol yn gwahaniaethu a'i fod yn gyfreithlon. Un enghraifft fyddai darpariaethau, meini prawf neu arferion sy'n ymwneud â chynnal safonau cymhwysedd academaidd ac ymarferwyr, er na fyddai hyn yn osgoi dyletswydd darparwr addysg osteopathig i wneud addasiadau rhesymol yn achos myfyrwyr ag anableddau a/neu gyflyrau iechyd.

## Beth yw gwahaniaethu sy'n deillio o anabledd?

32 Byddai gwahaniaethu sy'n deillio o anabledd yn digwydd pe bai myfyriwr anabl yn cael ei drin yn anffafriol oherwydd rhywbeth sy'n gysylltiedig â'i anabledd, ac na allai'r darparwr addysg osteopathig gyfiawnhau'r driniaeth honno. Mae hyn yn wahanol i wahaniaethu uniongyrchol (sy'n codi mewn perthynas â'r nodwedd warchodedig o anabledd ei hun), a gwahaniaethu anuniongyrchol (oherwydd nid oes angen dangos bod pobl eraill wedi cael eu heffeithio yn ogystal â'r myfyriwr anabl, ac nid oes angen ychwaith i'r myfyriwr anabl gymharu ei hun ag unrhyw un arall).

33 Byddai gwahaniaethu sy'n deillio o anabledd yn digwydd os yw'r tri amgylchiad canlynol yn codi:

- mae myfyriwr sy'n bodloni'r diffiniad o anabledd yn y Ddeddf yn cael ei drin yn anffafriol, gan ei roi dan anfantais, hyd yn oed os nad dyna'r bwriad
- roedd y driniaeth oherwydd rhywbeth sy'n gysylltiedig ag anabledd neu gyflwr iechyd y myfyriwr
- ni ellir cyfiawnhau'r driniaeth drwy ddangos ei bod yn ffordd gymesur o gyflawni nod dilys.

34 Os gall y darparwr addysg osteopathig ddangos nad oedd yn gwybod ac na ellid disgwyl yn rhesymol i'r darparwr wybod bod gan y myfyriwr anabl yr anabledd, efallai na fydd y driniaeth anffafriol yn gyfystyr â gwahaniaethu anghyfreithlon sy'n deillio o anabledd. Fodd bynnag, dylid gwneud pob ymdrech i sicrhau bod myfyrwyr yn teimlo eu bod yn gallu trafod gwybodaeth berthnasol am eu hiechyd neu anabledd a dylai'r sefydliad fod yn effro i unrhyw arwyddion y gallai myfyriwr fod yn wynebu anawsterau o ganlyniad i gyflwr iechyd neu anabledd.

## Beth yw aflonyddu?

35 **Mae Deddf Cydraddoldeb 2010** yn diffinio aflonyddu fel 'unwanted conduct related to a relevant protected characteristic, which has the purpose or effect of violating an individual's dignity or creating an intimidating, hostile, degrading, humiliating or offensive environment for that individual'. Mae anabledd yn un o'r nodweddion gwarchodedig o dan y Ddeddf.

## Beth yw erledigaeth?

36 **Diffinnir erledigaeth** yn y Ddeddf fel trin rhywun yn wael oherwydd ei fod wedi gwneud 'gweithred warchodedig' (neu oherwydd y credir bod person wedi gwneud gweithred warchodedig neu am wneud hynny).

37 'Gweithred warchodedig' yw:

- Gwneud hawliad neu gŵyn o wahaniaethu (o dan y Ddeddf Cydraddoldeb).
- Helpu rhywun arall i wneud hawliad trwy roi tystiolaeth neu wybodaeth.
- Gwneud honiad bod rhywun arall wedi torri'r Ddeddf.
- Gwneud unrhyw beth arall mewn cysylltiad â'r Ddeddf.

Os yw myfyriwr yn cael ei drin yn llai ffafriol oherwydd ei fod wedi cymryd camau o'r fath, yna bydd hyn yn erledigaeth anghyfreithlon. Rhaid bod cysylltiad rhwng yr hyn a wnaeth y myfyriwr a'i driniaeth. Gall unrhyw un wneud hawliad o erledigaeth, nid oes rhaid iddynt wneud hynny mewn perthynas ag un o'r nodweddion gwarchodedig.

## Beth yw'r ddyletswydd 'addasiadau rhesymol'?

38 Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod dyletswydd i wneud addasiadau rhesymol – hynny yw, i gymryd camau cadarnhaol i sicrhau bod myfyrwyr ag anableddau a chyflyrau iechyd yn gallu cymryd rhan lawn yn yr addysg a'r buddion, y cyfleusterau a'r gwasanaethau eraill a ddarperir i fyfyrwyr osteopathig.

39 Dylai darparwyr addysg osteopathig gymryd camau rhesymol er mwyn sicrhau nad yw unrhyw ddarpariaeth, maen prawf neu arferion (gweler isod), neu unrhyw nodwedd gorfforol, yn rhoi myfyrwyr (gan gynnwys ymgeiswyr ac mewn rhai amgylchiadau cyfyngedig cyn-fyfyrwyr) ag anableddau a/neu gyflyrau iechyd dan anfantais sylweddol (hynny yw, mae'n fwy nag anfantais ddinod neu ddibwys). Dylai darparwyr addysg ddarparu cymhorthion neu wasanaethau ategol hefyd – fel cyfarpar, meddalwedd cyfrifiadurol, neu gymorth ychwanegol gan staff – pan fyddai myfyrwyr sy'n bodloni'r diffiniad o fod yn 'anabl' yn y Ddeddf yn cael eu rhoi dan anfantais sylweddol heb y cymhorthion neu wasanaethau hynny.

40 'Mae'r 'ddyletswydd' yn ddyledus i bobl anabl yn gyffredinol. Mae'n rhagddyfalus ac yn barhaus yn yr ystyr bod disgwyl i ddarparwyr addysg osteopathig gymryd mesurau i osgoi achosi anfantais sylweddol, waeth a ydynt yn gwybod ai peidio bod myfyriwr penodol yn bodloni'r diffiniad, neu a oes ganddynt fyfyrwyr anabl ar yr adeg dan sylw.

41 Dylai darparwyr addysg osteopathig gynllunio ar gyfer addasiadau a allai fod eu hangen, gan ragweld gofynion myfyrwyr ag anableddau a/neu gyflyrau iechyd, a dileu rhwystrau posibl. Nid oes unrhyw gyfiawnhad dros fethu â gwneud addasiad rhesymol lle mae'r ddyletswydd yn gymwys, ond mae hyn yn ymestyn i'r hyn sy'n rhesymol yn unig. Nid yw'r Ddeddf yn diffinio beth sy'n 'rhesymol' – a fyddai yn y pen draw yn rhywbeth i'r llysoedd ei benderfynu – ond mae canllawiau statudol yn nodi'n glir y gellid ystyried y canlynol wrth asesu rhesymoldeb:

- pa mor effeithiol fydd addasiad wrth oresgyn yr anhawster a nodwyd
- a yw'n ymarferol gwneud yr addasiad
- y costau ariannol a'r costau eraill sy'n gysylltiedig, a'r arian sydd eisoes wedi'i wario ar wneud addasiadau
- faint o darfu y bydd yn ei achosi
- y cymorth ariannol neu'r mathau eraill o gymorth sydd ar gael (er enghraifft, gall myfyrwyr fod yn gymwys i gael cyllid o'r **Lwfans Myfyrwyr Anabl** sy'n grant i helpu myfyrwyr i dalu costau ychwanegol astudio, o ganlyniad uniongyrchol i anabledd neu gyflwr iechyd.

42 Mae'n arfer da gweithio gyda myfyrwyr i benderfynu pa addasiadau y gellir eu gwneud, ond ni ddylai darparwyr addysg osteopathig ddisgwyl i fyfyrwyr fod yn ymwybodol o'r holl addasiadau a allai fod ar gael. Pan fydd myfyriwr yn gwneud awgrymiadau penodol, dylai darparwyr addysg ystyried a fyddai'r addasiadau yn helpu i oresgyn yr anfantais ac a ydynt yn rhesymol ai peidio.

43 I grynhoi, pan fo myfyrwyr ag anableddau a/neu gyflyrau iechyd yn cael eu rhoi dan anfantais sylweddol gan bolisïau neu arferion, absenoldeb cymorth ategol, neu nodwedd ffisegol, rhaid i ddarparwyr addysg osteopathig ystyried a ellir gwneud unrhyw addasiad rhesymol i oresgyn yr anfantais.

44 Waeth beth yw gofynion cyfreithiol y Ddeddf Cydraddoldeb, mae'n ofynnol i ddarparwyr addysg fodloni **Safonau Addysg a Hyfforddiant y GOsC** mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

## Beth yw ystyr darpariaeth, maen prawf ac arferion?

45 Nid yw'r termau hyn wedi'u diffinio gan y **Ddeddf Cydraddoldeb** ond maen nhw'n cyfeirio at ddarpariaeth addysg, cyfleusterau a gwasanaethau i fyfyrwyr. Bwriad y termau yw cwmpasu holl drefniadau, polisïau, gweithdrefnau, a gweithgarwch darparwr addysg osteopathig, gan gynnwys penderfyniadau untro a chynigion neu gyfarwyddiadau i newid arferion mewn rhyw ffordd.

46 Pan fo myfyrwyr sy'n 'anabl' yn nhermau'r Ddeddf Cydraddoldeb yn cael eu rhoi dan anfantais sylweddol wrth gael mynediad at ddarpariaeth, cyfleusterau neu wasanaethau darparwr addysg neu gael budd ohonynt, rhaid cymryd pob mesur rhesymol i sicrhau nad yw maen prawf neu arferion y ddarpariaeth yn cael yr effaith honno mwyach.

47 Mewn addysg osteopathig, ni ellir gwahanu theori ac ymarfer osteopathi. Mae'n hanfodol bod myfyrwyr yn bodloni safonau ymarfer academaidd a phroffesiynol. Rhaid i fyfyriwr ddangos eu bod yn cyflawni'r safonau hyn ar gyfer dyfarnu cymhwyster cydnabyddedig, sy'n golygu cymhwystra i gofrestru fel osteopath. Yn nhermau'r Ddeddf Cydraddoldeb, mae'r gofynion hyn yn cael eu dehongli fel safon cymhwysedd.

48 Nid oes dyletswydd i wneud addasiadau i safon cymhwysedd, ar yr amod bod cymhwyso'r safon wedi'i gyfiawnhau. Fodd bynnag, mae'r ddyletswydd yn gymwys i'r gweithdrefnau a ddefnyddir gan ddarparwyr addysg i sefydlu a all myfyriwr fodloni'r safon cymhwysedd.

49 Rhaid cymryd pob cam rhesymol i sicrhau nad yw myfyriwr sydd ag anabledd neu gyflwr iechyd dan anfantais sylweddol mewn unrhyw brawf, arholiad neu asesiad ymarferol a ddefnyddir i sefydlu ei fod wedi bodloni'r safon ofynnol – ond nid yw'n ofynnol i ddarparwyr addysg osteopathig amrywio'r safon cymhwysedd ei hun o blaid myfyriwr o'r fath.

50 Mae gan y Cyngor Osteopathig Cyffredinol ddyletswydd i sicrhau bod y **Safonau Ymarfer Osteopathig** yn nodi cymwyseddau perthnasol a dilys yn unig sy'n hollol angenrheidiol ar gyfer ymarfer osteopathig diogel, effeithiol a heb oruchwyliaeth. Mae gan ddarparwyr addysg osteopathig rwymedigaeth i sicrhau bod cynnwys, arholiadau ac asesiadau'r cwricwlwm yn cyfeirio at y Safonau Ymarfer Osteopathig a **Deilliannau i Raddedigion**, ac nad ydynt yn gosod rhwystrau ychwanegol a allai roi myfyrwyr ag anableddau a/neu gyflyrau iechyd dan anfantais sylweddol.

## Dyletswyddau penodol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010

51 O dan y Ddeddf Cydraddoldeb, mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus gyhoeddi gwybodaeth bob blwyddyn am eu cyflogeion (os oes ganddynt fwy na 150) ac eraill yr effeithir arnynt gan eu polisïau a'u harferion (gan gynnwys myfyrwyr) mewn perthynas â materion cydraddoldeb. Mae'n ofynnol iddynt osod un neu ragor o amcanion penodol a mesuradwy, a'u cyhoeddi, am gyfnod nad yw'n hwy na phedair blynedd. Dylai'r amcanion hyn fod yn rhai y maen nhw'n credu sy'n angenrheidiol i gyflawni gofynion y ddyletswydd cydraddoldeb gyffredinol.

## Cefnogi staff i gyflawni eu cyfrifoldebau

52 Rhaid i staff gael gwybod am eu dyletswyddau cyfreithiol a bod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau i ymgeiswyr a myfyrwyr ag anableddau a/neu gyflyrau iechyd. Mae hyn yn arbennig o bwysig i staff sy'n ymwneud â derbyniadau, cymorth myfyrwyr ac iechyd galwedigaethol, yn ogystal â staff addysgu a staff cymorth. **Mae'r Safonau ar gyfer Addysg a Hyfforddiant** yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl staff sy'n ymwneud â dylunio a chyflwyno rhaglenni gael eu hyfforddi ym mhob polisi mewnol (gan gynnwys y rhai sy'n sicrhau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant), a'u bod yn gefnogol, yn hygyrch, ac yn gallu cyflawni eu rolau yn effeithiol.

53 Mae'n bwysig bod hyfforddiant yn ymestyn y tu hwnt i ddehongliad cul o gyfrifoldebau cyfreithiol y darparwr addysg osteopathig trwy fynd i'r afael ag agweddau ehangach ar gydraddoldeb a gwahaniaethu ar sail anabledd, er enghraifft trwy fynd i'r afael â materion fel stereoteipio a rhagfarn ddiarwybod. Efallai y bydd angen buddsoddi mewn datblygiad unigol, tîm a sefydliadol er mwyn sicrhau bod arferion yn eich sefydliad yn gydnaws â'r diwylliant o gydraddoldeb ac amrywiaeth yr ydych yn ceisio ei sicrhau.

54 Dylai staff gael eu hyfforddi i adnabod arwyddion cynnar cyflyrau iechyd meddwl, er mwyn sicrhau y gellir cynnig cymorth ar y cyfle cynharaf.

55 Fel gyda phob agwedd ar ymarfer cydraddoldeb, gall cynnwys myfyrwyr ag anableddau a/neu gyflyrau iechyd wrth gynllunio a darparu hyfforddiant cydraddoldeb fod yn eithriadol o ddefnyddiol. Mae gwefan **y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol**, y cyfeirir ati uchod, yn darparu amrywiaeth ddefnyddiol o adnoddau.

56 Gall darparwyr addysg osteopathig mewn prifysgolion, a'r rhai sy'n cynnig graddau a ddilysir gan brifysgol, gael mynediad at hyfforddiant anabledd ar draws y sefydliad cyfan, naill ai'n fewnol neu drwy'r brifysgol ddilysu, ac at ddysgu rhyngbroffesiynol gyda phroffesiynau iechyd eraill hefyd, gan ddarparu cyfleoedd i rannu profiadau o gefnogi myfyrwyr ag anableddau.

# Adran 4: Taith y Myfyriwr

57 Mae'r adran hon yn ymdrin â'r materion y dylai darparwyr addysg osteopathig eu hystyried ar wahanol adegau yn ystod taith y myfyriwr. Bydd yn helpu i sicrhau bod yr addysg a'r hyfforddiant osteopathig a ddarperir yn diwallu anghenion myfyrwyr ag anableddau a/neu gyflyrau iechyd, yn bodloni disgwyliadau a gofynion y Cyngor Osteopathig Cyffredinol, ac yn cyd-fynd â rhwymedigaethau cyfreithiol darparwyr addysg osteopathig.

## Rhagweld anghenion pobl anabl

58 Dylai pob darparwr addysg osteopathig adolygu ei gyfleusterau, ei wasanaethau a'i arferion yn rheolaidd er mwyn nodi lle mae angen gwelliannau ac addasiadau i ddiwallu yn well anghenion pobl ag anableddau a/neu gyflyrau iechyd. Ni ddylai hyn fod yn gyfyngedig i'r ystad ffisegol ond dylai gynnwys pob agwedd ar ddarpariaeth.

59 Nid yw'n bosibl nac yn ddymunol darparu rhestr gynhwysfawr o addasiadau rhesymol oherwydd mae pob darparwr addysg osteopathig yn unigryw. Dim ond trwy gynnal archwiliad trylwyr o bob agwedd ar ddarpariaeth sefydliad y bydd yn bosibl nodi addasiadau y dylid eu gwneud.

60 Mae'r enghreifftiau isod wedi'u cynnwys i ddangos yr amrywiaeth o addasiadau sydd wedi'u cynnwys yn y ddyletswydd ragddyfalus, hynny yw eu bod yn:

- darparu gwybodaeth am y cwrs mewn fformatau amgen er mwyn sicrhau ei fod yn hygyrch i ystod mor eang â phosibl o ddarpar fyfyrwyr
- sicrhau bod deunyddiau marchnata yn nodi'n glir bod ceisiadau gan fyfyrwyr ag anableddau a/neu gyflyrau iechyd yn cael eu croesawu
- cynnal arolwg hygyrchedd a gwneud addasiadau er mwyn sicrhau bod llwybrau mynediad cyffredinol ac argyfwng i adeiladau ac o adeiladau yn hygyrch i bobl â symudedd cyfyngedig
- sicrhau bod cyfleusterau craidd – fel toiledau, ystafelloedd cyffredin, llyfrgelloedd a chyfleusterau arlwyo – wedi'u goleuo'n dda, ag arwyddion priodol ac yn hawdd eu cyrraedd i fyfyrwyr anabl
- adolygu ac addasu polisïau ac arferion dysgu ac asesu er mwyn sicrhau nad ydynt, yn eu hanfod, yn gwahaniaethu yn erbyn myfyrwyr anabl
- sicrhau bod nodiadau darlithoedd ac adnoddau dysgu eraill ar gael mewn fformat electronig i'w defnyddio, er enghraifft, gan fyfyrwyr ag amhariad ar y golwg a'r rhai sydd ag anghenion dysgu penodol sy'n defnyddio meddalwedd cyfrifiadurol cynorthwyol
- gwella acwsteg darlithfeydd a gosod systemau dolen sain i gynorthwyo myfyrwyr ag amhariadau ar eu clyw
- sicrhau nad yw dodrefn, gosodiadau, ffitiadau ac adnoddau dysgu – fel gwasanaethau llyfrgell a chyfrifiadurol, ystafelloedd ymarferol a chyfarpar – yn peri rhwystr i fyfyrwyr ag anableddau a/neu gyflyrau iechyd a'u bod yn hygyrch iddynt
- sicrhau bod staff yn ddigon gwybodus am eu cyfrifoldebau i helpu i ddileu gwahaniaethu ar sail anabledd
- sicrhau bod staff yn gwybod sut i gael mynediad at y gwasanaethau a'r adnoddau arbenigol sydd ar gael i helpu i asesu anghenion myfyrwyr sydd ag anabledd neu amhariad iechyd. Byddai hyn yn cynnwys hyfforddi staff i adnabod arwyddion cynnar cyflyrau iechyd meddwl, er mwyn sicrhau bod modd nodi problemau a chynnig cymorth priodol.

61 Mae'r enghreifftiau hyn yn dangos rhai o'r cyfleusterau, gwasanaethau ac arferion y gellir eu gwella er mwyn osgoi peri anfantais i fyfyrwyr ag anableddau a/neu gyflyrau iechyd – ond mae'n bwysig pwysleisio, er bod dyletswydd yn ddyledus i 'bobl anabl' yn gyffredinol, mae gan ddarparwyr addysg osteopathig ddyletswydd hefyd i sefydlu ac ymateb i anghenion penodol ymgeiswyr a myfyrwyr fel unigolion.

**Enghraifft o achos**

Fe wnaeth darparwr addysg osteopathig ddatblygu cynlluniau i uwchraddio ac adnewyddu ystafell addysgu, i ddarparu darlithfa gyda chyfleusterau llawer gwell a llawer mwy cyfoes. Roedd y darparwr yn ymwybodol bod yr acwsteg yn yr ystafell yn wael, ar ôl cael sylwadau gan ddau fyfyriwr ag amhariadau ar eu clyw yn dweud eu bod yn cael trafferth clywed y darlithydd yn yr ystafell. Fel rhan o'r gwaith adnewyddu, gosodwyd dolen sain i gynorthwyo myfyrwyr a oedd yn defnyddio cymhorthion clyw. Gosodwyd system sain hefyd, a oedd yn golygu bod modd i'r darlithwyr ddefnyddio meicroffon. Roedd hyn yn cynorthwyo myfyrwyr sydd ag amhariad bach ar eu clyw hefyd, ond nad oeddent yn defnyddio cymorth clyw.

## Recriwtio a dethol

62 Mae'n ddyletswydd ar y darparwr addysg osteopathig i beidio â gwahaniaethu yn erbyn rhywun sy'n bodloni'r diffiniad o fod yn 'anabl' at ddibenion y Ddeddf Cydraddoldeb yn y trefniadau a wneir ar gyfer penderfynu pwy ddylai gael cynnig mynediad i gyrsiau a gynigir, naill ai o ran unrhyw gynnig a wneir, neu drwy beidio â derbyn cais i gwrs. Mae'n ddyletswydd ar y darparwr hefyd i beidio ag aflonyddu ar rywun mewn perthynas â'i iechyd neu ei anabledd.

63 Mae'r canllawiau isod yn ymwneud â'r prosesau sy'n gysylltiedig â recriwtio a dethol myfyrwyr, ac yn benodol, y camau y gellir eu cymryd i sicrhau bod dull cynhwysol yn cael ei fabwysiadu, ac i osgoi gwahaniaethu yn erbyn ymgeiswyr neu fyfyrwyr ag anableddau a/neu gyflyrau iechyd.

## Marchnata

64 Dylai deunydd cyhoeddusrwydd a gwybodaeth am gyrsiau nodi'n glir bod ceisiadau gan bobl ag anableddau a/neu gyflyrau iechyd yn cael eu croesawu. Bydd cynnwys straeon a delweddau cadarnhaol o bobl anabl yn y maes osteopathi, a'r ffaith bod gwybodaeth ar gael mewn fformatau amgen, yn helpu i atgyfnerthu'r neges hon o'r cysylltiadau cynharaf un â darpar ymgeiswyr. O ran cyflyrau iechyd meddwl, dylai darparwyr addysg osteopathig gydnabod bod y rhain yn gyffredin, y disgwylir iddynt ddigwydd ac y gellir darparu ar eu cyfer.

**Enghraifft o achos**

Mae darparwr addysg osteopathig yn adolygu ei brosbectws. Yn ymwybodol o'r ffaith bod gan ddeg y cant o'i fyfyrwyr ddyslecsia, mae'r darparwr yn mynd ati i hyrwyddo'r ffaith hon, ynghyd ag enghreifftiau o'r mecanweithiau cymorth sydd ar gael i gefnogi'r myfyrwyr hyn i reoli eu hastudiaethau. Mae enghreifftiau o achosion gan fyfyrwyr presennol a chyn-fyfyrwyr â dyslecsia yn dangos nad yw'r cyflwr hwn yn cael ei ystyried fel rhwystr i lwyddiant academaidd.

65 Mae'n hanfodol bod ymgeiswyr yn ymwybodol o'r gofynion deallusol, corfforol, emosiynol a phroffesiynol o ymgymryd â rhaglen addysg osteopathig. Gellir gwneud hyn trwy gyferbynnu osteopathi â graddau nad ydynt yn cynnwys hyfforddiant ymarferol ac nad ydynt yn arwain at gofrestriad proffesiynol ac ymarfer gofal iechyd annibynnol. Dylai deunydd cyhoeddusrwydd gynnwys cyswllt a enwir sy'n gallu cynghori darpar ymgeiswyr am natur a gofynion osteopathi fel proffesiwn a gyrfa, heriau'r cwrs, a'r gefnogaeth sydd ar gael i fyfyrwyr ag anableddau a/neu gyflyrau iechyd.

66 Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr addysg osteopathig yn cynnal diwrnodau agored, gan roi cyfle i ddarpar fyfyrwyr ddatblygu dealltwriaeth o osteopathi ac addysg osteopathig. Mae'r cyfle i siarad â myfyrwyr ar y cwrs ac i arsylwi neu gymryd rhan mewn sesiynau ymarferol yn helpu darpar ymgeiswyr i ddeall yn well natur a gofynion corfforol osteopathi, ond hefyd y cymorth y gellir ei ddarparu iddynt os oes ganddynt anabledd neu gyflwr iechyd. Gall fod yn ddefnyddiol i ddarpar fyfyrwyr gael cyfle i arsylwi sesiynau clinig. Er bod llawer yn gallu rhagweld yn rhwydd yr addasiadau a'r cymhorthion sydd eu hangen i gefnogi dysgu yn yr ystafell ddosbarth a dysgu theori, mae llai o ddarpar fyfyrwyr yn debygol o fod â dealltwriaeth o'r addasiadau a allai eu galluogi i ddysgu a dangos cymwyseddau clinigol, neu'r effaith y gallai hyn ei chael ar gleifion. Mae galluogi darpar fyfyrwyr i ddeall yn well holl faint ac ehangder ymarfer osteopathig yn golygu y byddant mewn gwell sefyllfa i wneud dewis gwybodus o ran ai osteopathi yw'r yrfa gywir o ddewis iddynt hwy.

67 Mae'n bwysig nad yw rhagdybiaethau yn cael eu gwneud ynghylch a fydd ymgeisydd yn y pen draw yn gallu dangos ei fod yn cyflawni'r safon sy'n ofynnol ar gyfer dyfarnu cymhwyster cydnabyddedig. Fodd bynnag, gall cyfeirio'n gynnar at y **Safonau Ymarfer Osteopathig**, ac at natur gyffredinol ymarfer osteopathig, helpu darpar ymgeisydd i asesu ei hun yn erbyn yr hyn sy'n ofynnol er mwyn cofrestru, bodloni'r gofynion proffesiynol a dilyn gyrfa mewn osteopathi.

## Cais

68 Dylai darparwyr addysg osteopathig bwysleisio pwysigrwydd bod myfyrwyr yn agored ynglŷn ag unrhyw anabledd neu gyflwr iechyd, a nodi'n glir bod cymorth ar gael yn y wybodaeth a ddarperir i ddarpar fyfyrwyr. Fodd bynnag, mae'n bwysig taro'r cydbwysedd cywir rhwng annog ymgeiswyr i ddarparu gwybodaeth am anabledd neu gyflwr iechyd ar y cyfle cyntaf, a hawl ymgeisydd i beidio â gwneud hynny. Gall gwybodaeth am y cwrs dynnu sylw at fanteision gwneud hynny a rhoi sicrwydd i ymgeiswyr yr un pryd na fydd hyn yn rhagfarnu eu cais, a fydd yn cael ei ystyried ar wahân i unrhyw ystyriaeth o'r addasiadau rhesymol a allai fod eu hangen os cynigir lle iddynt.

69 Gwahoddir myfyrwyr sy'n gwneud cais trwy Wasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau (UCAS) i nodi a oes ganddynt anabledd, angen dysgu, neu gyflwr meddygol ai peidio, neu i nodi nad ydynt yn dymuno darparu'r wybodaeth hon. Mae'n ofynnol i ymgeiswyr ddewis o restr o opsiynau:

- dim anabledd
- amhariad cymdeithasol/cyfathrebu fel anhwylder sbectrwm awtistig
- dallineb neu amhariad difrifol ar y golwg nad yw'n cael ei gywiro gan sbectol
- byddardod neu amhariad difrifol ar y clyw
- salwch neu gyflwr iechyd hirdymor fel canser, HIV, diabetes, clefyd cronig y galon, neu epilepsi
- cyflwr iechyd meddwl, fel anhwylder gorbryder, iselder, neu sgitsoffrenia
- anhawster dysgu penodol fel dyslecsia, dyspracsia neu AD(H)D
- amhariad corfforol neu broblemau symudedd, fel anhawster defnyddio'r breichiau neu'n defnyddio cadair olwyn neu faglau

- anabledd, amhariad neu gyflwr meddygol sydd heb ei restru uchod
- dau neu ragor o amhariadau a/neu gyflyrau meddygol sy'n anablu.

70 Yn y lle cyntaf, bydd yr wybodaeth hon yn helpu darparwyr addysg osteopathig i sefydlu a allai fod angen unrhyw drefniadau penodol i hwyluso'r broses ddethol, ac yna i agor deialog gyda'r ymgeisydd am anghenion ac addasiadau. Mae'r categorïau UCAS yn rhoi darlun defnyddiol hefyd o'r amrywiaeth eang o anableddau, anghenion dysgu a chyflyrau iechyd y gall darparwyr addysg osteopathig eu hwynebu ac y gall fod angen addasiadau ar eu cyfer – ond nid oes rhestr o anableddau, anghenion dysgu neu gyflyrau iechyd yr ystyrir yn anghydnaws ag osteopathi ac ni ellir cael rhestr o'r fath. Rhaid asesu pob ymgeisydd fel unigolyn. Mae'n rhaid i bob darparwr addysg benderfynu a ddylid derbyn rhywun i gwrs yn seiliedig ar asesiad i benderfynu a fydd yr unigolyn, gydag addasiadau rhesymol, yn gallu bodloni'r **Safonau Ymarfer Osteopathig** yn y pen draw.

71 Mae osteopathi yn cynnwys asesiad annibynnol, diagnosis, cynllunio triniaeth, ac ymyriadau â llaw ac mae diogelwch cleifion yn hollbwysig. Mae'r gofynion heriol hyn wedi'u crynhoi yn y **Safonau Ymarfer Osteopathig**, ac yn y **Deilliannau i Raddedigion**. Bydd achosion lle na all fod unrhyw gasgliad arall heblaw nad yw'r ddarpariaeth o gymorth, cymhorthion ac addasiadau rhesymol yn ddigonol i alluogi ymgeisydd i ddangos ei fod yn cyflawni'r safon cymhwysedd ar gyfer mynediad i'r proffesiwn.

72 Gellir cyfiawnhau gosod meini prawf mynediad a chynnal proses ddethol oherwydd nid yw er budd i unrhyw un i dderbyn myfyriwr – boed yn anabl neu ddim yn anabl – nad oes ganddo siawns dda o gwblhau'r cwrs. Rhaid i staff derbyniadau felly fod yn realistig wrth benderfynu pa addasiadau sy'n rhesymol ac wrth asesu a ydynt yn wirioneddol gynnal y posibilrwydd o alluogi myfyriwr i fodloni'r safon cymhwysedd ac i ddechrau ymarfer annibynnol heb oruchwyliaeth.

73 Mae darparwyr addysg osteopathig wedi derbyn llawer o fyfyrwyr ag anableddau a chyflyrau iechyd ar eu cyrsiau, ac wedi darparu amrywiaeth eang o addasiadau sydd wedi cefnogi myfyrwyr i gwblhau'r cwrs yn llwyddiannus. Mae'r rhain yn cynnwys myfyrwyr â niwroamrywiaethau (fel awtistiaeth, anhwylderau diffyg canolbwyntio, dyslecsia, a dyspracsia), amhariadau synhwyraidd (gweledol a chlywedol), anableddau corfforol (fel amhariad ar symudedd), cyflyrau iechyd (fel canser), gwahanol salwch hirdymor (gan gynnwys diabetes, epilepsi) a chyflyrau iechyd meddwl (gan gynnwys iselder, anhwylderau gorbryder cyffredinol ac anhwylder panig).

## Dethol

74 Dylid asesu pob cais yn erbyn yr un meini prawf mynediad. Dylai darparwyr addysg osteopathig sicrhau nad yw'r meini prawf – a'r ffordd y mae eu staff yn eu cymhwyso – yn gwahaniaethu yn erbyn ymgeiswyr sy'n debygol o fod yn 'anabl' at ddibenion y Ddeddf Cydraddoldeb. Fodd bynnag, er y gallai fod angen i ddarparwyr addysg ystyried cynnig fformatau amgen i alluogi rhywun i wneud cais i'w cwrs, nid oes rhaid iddynt amrywio'r lefel o gyrhaeddiad blaenorol sy'n ofynnol. Mae hyn oherwydd bod meini prawf mynediad yn cyfrif fel safonau cymhwysedd sydd wedi'u heithrio o'r ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol.

75 Defnyddir cyfweliadau yn gyffredin i asesu ymgeiswyr i gael mynediad i addysg a hyfforddiant osteopathi. Fel gydag unrhyw brawf dethol, os defnyddir cyfweliadau fel rhan o'r broses ddethol, rhaid i hyn fod yn gymwys i bob ymgeisydd.

76 Dylai darparwyr addysg osteopathig sefydlu ymhell cyn y cyfweliad a oes angen unrhyw addasiadau rhesymol i alluogi ymgeisydd i gael mynediad llawn i'r broses a chymryd rhan lawn ynddi. Fel yn ystod camau eraill o'r broses ddethol, mae'n bwysig holi ynghylch gofynion yr ymgeisydd yn hytrach na chanolbwyntio ar anabledd neu gyflwr iechyd.

77 Ni ddylai'r broses o gynnal y cyfweliad wahaniaethu rhwng ymgeiswyr anabl a rhai nad ydynt yn anabl. Dylai cwestiynau'r cyfweliad fod yn seiliedig ar feini prawf gwrthrychol a chael eu cymhwyso'n unffurf i bob ymgeisydd. Dylai anabledd neu gyflwr iechyd ymgeisydd fod yn amherthnasol i'r asesiad hwn a, hyd y mae modd, ni ddylai hyn fod yn destun trafodaeth yn ystod y cyfweliad. Er hynny, nid yw'r Ddeddf Cydraddoldeb yn gwahardd cwestiynau am amhariad ymgeisydd ar yr amod eu bod yn ymwneud â gofyniad yr ymgeisydd am addasiadau rhesymol neu ei allu i fodloni'r safonau cymhwysedd ar gyfer y cwrs. Dylid cymhwyso'r meini prawf cyfweld a ddefnyddir i sefydlu addasrwydd ymgeisydd fel pe bai addasiadau rhesymol wedi'u gwneud. Ni ddylai ymarferoldeb neu resymoldeb addasiadau o'r fath fod yn fater i'r panel cyfweld a dylid eu hystyried dim ond ar ôl i benderfyniad gael ei wneud i gynnig lle i ymgeisydd.

78 Dylid cadw cofnodion yn ystod pob cam o'r broses er mwyn cyfiawnhau ac egluro penderfyniadau. Dylai'r rhain gynnwys nodiadau diduedd o'r cyfweliadau gydag asesiadau ysgrifenedig yn erbyn pob un o feini prawf y cyfweliad.

79 Dylai darparwyr addysg osteopathig fod â phroses glir ar waith ar gyfer ymdrin â chwynion. Dylid sicrhau bod manylion y broses ar gael mewn fformatau hygyrch.

**Enghraifft o achos**

Ar ôl i ymgeisydd ddatgelu amhariad ar y golwg, fe'i gwahoddir i gyfweliad gyda darparwr addysg osteopathig. Rhoddir cyfweliad i'r unigolyn gan ddefnyddio'r un meini prawf â phob ymgeisydd arall. Trafodir yr anabledd ar ddiwedd y cyfweliad, ond dim ond yng nghyd-destun yr addasiadau rhesymol y teimlir a allai fod yn angenrheidiol i'w alluogi i ymdopi â'r astudiaethau, a sut gellir dangos y Safonau Ymarfer Osteopathig.

Ar sail cymwysterau academaidd yr ymgeisydd a'r perfformiad yn y cyfweliad, cynigir lle, yn amodol ar ystyried ymarferoldeb a rhesymoldeb yr addasiadau angenrheidiol.

## Paratoi ar gyfer mynediad i gwrs osteopathig

80 Dylai'r broses o gytuno ar addasiadau ddechrau cyn gynted ag y bydd ymgeisydd yn cael cynnig lle. Dylai gynnwys y myfyriwr yn uniongyrchol a dylai staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol ei chyflawni gan ddefnyddio dull safonol o werthuso ceisiadau yn ôl meini prawf mynediad heb wahaniaethu, a dylai gynnwys gweithdrefnau diffiniedig ar gyfer ymgysylltu ag ymgeiswyr i nodi'r darpariaethau angenrheidiol. Efallai y bydd angen cyngor ac arweiniad arbenigol hefyd, er enghraifft gan swyddog anabledd prifysgol, gweithiwr iechyd galwedigaethol, seicolegydd addysg neu sefydliad anabledd arbenigol. Gallai darpar fyfyrwyr, er enghraifft, gyd-ddatblygu cynlluniau gweithredu cyn ymrwymo i raglen. Gallai'r cynlluniau hyn gyd-fynd â'r Deilliannau i Raddedigion a'r Safonau ar gyfer Addysg a Hyfforddiant er mwyn sicrhau bod myfyrwyr yn debygol o fod yn gallu bodloni'r rhain.

81 Dylai darparwyr addysg osteopathig drafod gyda'r ymgeisydd natur a maint yr addasiadau rhesymol sy'n debygol o fod eu hangen i'w alluogi i ymgymryd â phob agwedd ar y cwrs, i allu dangos ei fod yn cyflawni'r safon ar gyfer dyfarnu cymhwyster cydnabyddedig, ac yn y pen draw i ymarfer fel osteopath. Dylai myfyrwyr gael cyfle i siarad â staff cymorth myfyrwyr neu swyddog anabledd prifysgol am y cymorth ariannol personol a allai fod ar gael, er enghraifft, costau sy'n gysylltiedig ag astudio oherwydd problem iechyd meddwl, salwch hirdymor neu unrhyw anabledd arall o'r Lwfans Myfyrwyr Anabl.

82 Mae darpar fyfyrwyr ag anabledd neu gyflwr iechyd hirdymor yn debygol o fod ag ymdeimlad gwirioneddol o'u galluogrwydd a bydd llawer wedi datblygu amrywiaeth o strategaethau ar gyfer rheoli a gwneud iawn am gyfyngiadau gweithredol. Felly, mae myfyrwyr yn aml mewn sefyllfa dda i gynnig cyngor am y mathau o gymorth ac addasiadau y bydd eu hangen arnynt. Fodd bynnag, dyletswydd y darparwr addysg osteopathig yw sefydlu pa addasiadau sydd angen eu gwneud, felly dylai staff fod mewn sefyllfa i allu asesu ar gyfer cymhorthion a chymorth priodol a threfnu iddynt gael eu rhoi ar waith. Mewn rhai achosion, efallai y bydd angen asesiad arbenigol i sefydlu yn union pa fath a lefel o gymorth fydd ei angen neu, er enghraifft, i ddarparu cadarnhad ffurfiol o anhawster dysgu penodol os yw myfyriwr yn penderfynu gwneud cais am y **Lwfans i Fyfyrwyr Anabl**.

83 Mae'n arfer cyffredin i'w gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr sydd wedi cael cynnig lle gwblhau holiadur asesu iechyd. Nid yw hyn yn gwahaniaethu yn erbyn myfyrwyr ag anableddau a/neu gyflyrau iechyd oherwydd bod y gofyniad yn gymwys i bob ymgeisydd ac mae'n fesur y gellir ei gyfiawnhau er budd diogelu'r cyhoedd a chleifion. Nid prif nod yr holiadur yw ceisio gwybodaeth am gyflyrau iechyd neu anableddau ond nodi materion a allai wneud cleifion, myfyrwyr eu hunain, neu eraill yn agored i risgiau diangen. O'r herwydd, caiff ei gwblhau'n gyfrinachol fel arfer i'w asesu gan staff derbyniadau ac, os yw'n briodol, gweithwyr iechyd galwedigaethol proffesiynol.

84 Dylid cymryd pob cam rhesymol i nodi addasiadau angenrheidiol a'u rhoi ar waith, trwy ddeialog mewn partneriaeth â'r myfyriwr a chymryd cyngor gan yr arbenigwyr perthnasol yn y Brifysgol neu ddefnyddio ffynonellau cyngor allanol, ond mewn rhai achosion gellir dod i'r casgliad na ellir cyflawni hyn yn rhesymol, neu na fyddai'r ymgeisydd yn gallu dangos ei fod yn cyflawni'r safon ar gyfer dyfarnu cymhwyster cydnabyddedig hyd yn oed gydag addasiadau. Yn amlwg, mae angen cyfathrebu'r casgliad hwn i'r ymgeisydd mewn ffordd sensitif, yn ddelfrydol ynghyd â chyngor am gyrsiau amgen posibl y gallai'r ymgeisydd ddymuno eu hystyried.

## Cynefino

85 Mae cynefino yn rhoi cyfle i dynnu sylw at y cymorth a allai fod ar gael i fyfyrwyr os ydynt yn wynebu problemau sy'n ymwneud â'u hiechyd neu anabledd yn ystod y cwrs, ac i wahodd myfyrwyr nad ydynt wedi gwneud hynny i ddarparu gwybodaeth am effaith unrhyw anableddau neu gyflyrau iechyd a allai fod ganddynt.

86 Dylai darparwyr addysg osteopathig fod yn ymwybodol nad yw rhai myfyrwyr yn rhoi digon o bwyslais ar eu hanawsterau, efallai oherwydd eu bod yn poeni am y ffordd y gallai eu hanabledd neu gyflwr iechyd gael ei weld gan eraill, sy'n golygu efallai na fyddant yn derbyn cymorth priodol yn gynnar yn y cwrs. Nid yw myfyrwyr sydd â salwch meddwl yn aml yn gweld eu hunain yn anabl ond efallai y byddant yn cael eu diogelu o dan y Ddeddf Cydraddoldeb a dylid rhoi yr un ystyriaethau iddynt â myfyrwyr ag anabledd mwy gweladwy.

## Cyfrinachedd

87 Er mwyn i fyfyrwyr osteopathig deimlo'n gyfforddus yn gofyn am gymorth os oes ganddynt gyflwr iechyd neu anabledd, mae'n bwysig eu bod yn deall materion yn ymwneud â chyfrinachedd ynghylch y wybodaeth y maen nhw'n ei darparu. Rhaid i ddarparwyr addysg osteopathig fod â pholisi cyfrinachedd sy'n nodi:

- pwy fydd yn derbyn y wybodaeth a ddarperir gan y myfyriwr
- sut y bydd gwybodaeth y myfyriwr yn cael ei defnyddio
- achosion lle gall cyfrinachedd gael ei dorri.

88 Rhaid i'r polisi sicrhau cydymffurfiaeth â'r ddeddfwriaeth berthnasol, safonau proffesiynol a moesegol a'r gofynion proffesiynol a amlinellir yn y Deilliannau i Raddedigion a Safonau ar gyfer Addysg a Hyfforddiant. Dylai myfyrwyr, mewn rhai amgylchiadau, allu penderfynu peidio â rhannu gwybodaeth am eu hiechyd yr oeddent wedi cytuno i'w rhannu yn flaenorol. Bydd angen caniatâd yr ymgeisydd ar gyfer addasiadau rhesymol sy'n datgelu'r anabledd neu'r cyflwr iechyd. Mewn amgylchiadau lle teimlir ei bod yn angenrheidiol torri cyfrinachedd, lle y bo'n ymarferol, dylid trafod hyn gyda'r myfyriwr cyn cymryd unrhyw gamau.

89 Fel ym mhob elfen o'r ddeialog gydag ymgeiswyr a myfyrwyr am anabledd neu faterion iechyd, mae angen sensitifrwydd. Mae hyn yn atgyfnerthu pwysigrwydd hyfforddiant i staff sy'n ymwneud â recriwtio a dethol. Dylid torri cyfrinachedd myfyriwr dim ond pan fo hyn yn angenrheidiol i amddiffyn y myfyriwr neu eraill rhag y risg o niwed difrifol.

**Enghraifft o achos**

Mae darparwr addysg osteopathig yn cynnig sgrinio bob myfyriwr am ddyslecsia yn ystod y broses gynefino. Mae hyn wedi datgelu cyfradd llawer uwch na'r disgwyl o ddyslecsia heb ddiagnosis. Ystyrir nad yw'r arfer hwn yn gwahaniaethu oherwydd ei fod yn gymwys i bob myfyriwr a'i fwriad yw sicrhau y gellir rhoi cymorth priodol ac addasiadau addas ar waith – mewn geiriau eraill, mae'n cael ei gyfiawnhau fel mesur cymesur i gyflawni diben dilys.

## Gwneud addasiadau i addysgu, dysgu ac asesu

90 Mae gan ddarparwyr addysg osteopathig brofiad sylweddol o wneud addasiadau sydd wedi galluogi myfyrwyr ag anableddau a chyflyrau iechyd i gwblhau hyfforddiant, graddio, cofrestru ac ymarfer osteopathi. Mae'r adran hon yn tynnu sylw at ystyriaethau ac enghreifftiau dangosol o'r sbectrwm eang o addasiadau a all fod o fudd i fyfyrwyr ag anableddau a/neu gyflyrau iechyd.

91 Mae'n arfer da gofyn i'r myfyriwr beth mae'n ei ystyried sydd ei angen, ond nid cyfrifoldeb y myfyriwr yw awgrymu pa addasiadau sydd eu hangen. Nid oes rhaid i ddarparwyr addysg osteopathig wneud pob addasiad y mae myfyriwr yn gofyn amdano, ond ni allant honni bod addasiad yn afresymol dim ond oherwydd ei fod yn anghyfleus neu'n ddrud.

92 Gall penderfynu beth sy'n rhesymol fod yn heriol. Fe wnaeth Adran 3 dynnu sylw at rai o'r ystyriaethau mwy arwyddocaol fel:

- pa mor effeithiol fydd yr addasiad wrth oresgyn yr anhawster
- a yw'n ymarferol gwneud yr addasiad
- pa gostau ariannol ac eraill sy'n gysylltiedig â'r addasiad
- faint o darfu y bydd yn ei achosi
- y cymorth ariannol neu'r math arall o gymorth sydd ar gael.

**Enghraifft o achos**

Mae myfyriwr blwyddyn gyntaf yn datgelu i'r swyddog lles myfyrwyr ei fod wedi cael anhwylder bwyta rhwng 15 a 18 oed ac o ganlyniad, mae dwysedd esgyrn y myfyriwr wedi lleihau. Mae'r swyddog lles myfyrwyr yn cynghori y byddai'n amhriodol i'r myfyriwr brofi technegau osteopathig penodol yn ystod dosbarthiadau ymarferol oherwydd y gallai hyn beryglu ei ddiogelwch, a pheri risg o dorasgwrn. Mae'n gofyn i'r myfyriwr am ganiatâd i wneud y tîm addysgu ymarferol yn ymwybodol o'i gyflwr, ac yn ei sicrhau bod unrhyw staff sy'n cael eu gwneud yn ymwybodol o'r wybodaeth hon yn y modd hwn hefyd wedi'u rhwymo gan bolisi cyfrinachedd yr Ysgol. Bydd y ffaith na ellir cynnal technegau penodol ar y myfyriwr, wrth gwrs, yn tynnu sylw at y ffaith bod yna broblem, ond cyfrifoldeb y myfyriwr yw penderfynu a fydd am ddatgelu'r rhesymau dros hyn i'w gydweithwyr. Mae'r myfyriwr yn hapus i roi caniatâd o'r fath, ac mae'r tîm addysgu yn cael eu hysbysu.

93 Mae un ystyriaeth o resymoldeb yn ymwneud â risg. Nid yw'r Ddeddf Cydraddoldeb yn cael blaenoriaeth dros ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch, felly ni ddylai'r myfyriwr nac unrhyw un arall fod yn agored i risgiau i'w iechyd neu eu diogelwch o ganlyniad i addasiad sy'n gysylltiedig ag anabledd. Ar y llaw arall, mae pobl anabl weithiau'n nodi eu bod yn cael eu heithrio o weithgareddau neu eu hatal rhag cymryd risgiau y mae pobl nad ydynt yn anabl yn eu cymryd yn ganiataol. Dylai myfyriwr ag anabledd neu gyflwr iechyd felly gael dweud eu dweud o ran yr hyn sy'n lefel dderbyniol o risg iddynt yng ngweithgareddau o ddydd i ddydd addysg a hyfforddiant osteopathig. Er ei bod yn bwysig sicrhau nad yw myfyrwyr yn agored i fwy o risg yn ystod hyfforddiant oherwydd eu hanabledd neu gyflwr iechyd, nid yw'n ddymunol nac yn angenrheidiol gwneud addasiadau i gael gwared ar yr holl risgiau neu leihau'r holl risgiau.

94 Mae'n iawn y dylid canolbwyntio ar nodi'r addasiadau sy'n gallu diwallu orau anghenion myfyriwr ag anabledd neu gyflwr iechyd, ond ni ddylai hyn olygu bod eu heffaith ar eraill yn cael ei hesgeuluso. Mae'n bwysig i ddarparwyr addysg osteopathig gydnabod bod eu dyletswydd gofal yn ymestyn nid yn unig i fyfyrwyr ag anableddau, ond i'r corff ehangach o fyfyrwyr hefyd. Efallai y byddai'n rhesymol disgwyl i fyfyrwyr eraill oddef lefel o anghyfleustra i ddarparu ar gyfer addasiadau i fyfyriwr, ond efallai na fydd yn rhesymol disgwyl i ddarparwr addysg osteopathig wneud addasiad sy'n rhoi myfyrwyr eraill dan anfantais sylweddol a pharhaus. Serch hynny, mae profiadau blaenorol wedi dangos, mewn llawer o achosion, mai myfyrwyr eraill sydd wedi darparu'r gefnogaeth a'r cymorth sydd wedi galluogi rhywun ag anabledd neu gyflwr iechyd i gwblhau ei hyfforddiant yn llwyddiannus. Wrth wneud penderfyniadau, dylai darparwyr addysg sicrhau eu bod yn cynnal deialog agored a pharhaus gyda'r myfyriwr, yn ceisio cyngor perthnasol, er enghraifft gan arbenigwyr anabledd perthnasol yn y Brifysgol neu'r Coleg, darparwyr addysg osteopathig eraill ac elusennau perthnasol, y GOsC a, lle bo angen, cyngor cyfreithiol, i lywio'r broses o wneud penderfyniadau. Dylai penderfyniadau gael eu hadrodd yn glir gyda sylfaen dystiolaeth glir.

95 Mae'n hanfodol bod yr addasiadau a roddir ar waith yn cael eu cyfathrebu mewn ffordd briodol i'r myfyriwr, ac yn cael eu cyfathrebu mewn fformat hygyrch. Yn nhermau'r Ddeddf Cydraddoldeb, efallai y byddai methu â gwneud myfyriwr yn ymwybodol o'r addasiadau sydd wedi'u gwneud ddim gwell na pheidio â gwneud unrhyw addasiadau o gwbl. Os cafwyd deialog dda gyda'r myfyriwr cyn dechrau'r cwrs ac yn ystod wythnosau cynnar yr hyfforddiant, ni ddylai unrhyw faterion 'annisgwyl' godi oherwydd bydd addasiadau wedi cael eu trafod, eu cytuno a'u rhoi ar waith. Dylid adolygu addasiadau yn rheolaidd wedyn er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn effeithiol.

96 Er bod addasiadau wedi'u bwriadu i gael gwared ar rwystrau neu i wneud iawn am anfanteision sy'n deillio o anabledd gan eu bod yn ymwneud â dysgu ac arddangos cymhwysedd proffesiynol, ni ddylai hyn arwain at ostwng y trothwy a ddisgwylir ar gyfer ymarfer ymreolaethol. Nid yw addasiadau rhesymol yn berthnasol i'r safon cymhwysedd ei hun – mae hyn yn arbennig o bwysig mewn proffesiwn sy'n seiliedig ar ymarfer lle mae cleifion yn ymddiried yn ymddygiad moesegol, cymhwysedd technegol ac arbenigedd clinigol yr ymarferydd.

97 Mae amrywiaeth eang o addasiadau y gellid eu gwneud o ran addysgu, dysgu ac asesu. Mae rhai o'r addasiadau a gymhwysir yn fwy cyffredin yn cynnwys:

- addasiadau i'r amgylchedd ffisegol, yn fewnol ac yn allanol, er mwyn gwella mynediad at gyfleusterau a'r defnydd ohonynt, gan gynnwys addasiadau i nodweddion fel goleuadau ac inswleiddio sain hefyd
- addasiadau i addysgu a dysgu, gan gynnwys darparu gwybodaeth mewn amrywiaeth o fformatau gweledol, sain ac electronig ynghyd â'r technolegau cynorthwyol cysylltiedig
- addasiadau o ran cymorth dynol, ar ffurf hyfforddi a mentora a chymorth tiwtorial ychwanegol
- addasiadau trwy wneud ystyriaethau penodol, fel ymestyn dyddiadau cau, caniatáu absenoldebau, darparu seibiannau mewn sesiynau addysgu, neu drwy lacio rheoliadau, er enghraifft, i ganiatáu i fyfyriwr gario meddyginiaeth angenrheidiol, ei storio ar y safle a'i chymryd
- addasiadau trwy ddarparu cyfarpar i gefnogi dysgu â chymorth cyfrifiadur, meddalwedd adnabod llais a darllenwyr sgrin, neu liniaduron a dyfeisiau llaw ar gyfer cymryd nodiadau
- addasiadau trwy hwyluso mynediad at adnoddau, er enghraifft ar gyfer prynu gwerslyfrau i'w defnyddio gartref i helpu i fynd i'r afael â'r blinder sy'n gysylltiedig â theithiau mynych i'r llyfrgell, ac ar gyfer defnyddio tacsis ar ôl triniaethau gofal iechyd penodol
- addasiadau i arholiadau, er enghraifft wrth gynllunio a chyflwyno papurau arholiadau, trwy ddarparu amser ychwanegol a chaniatáu seibiannau gorffwys, cael gwared ar gosbau am gamsillafu termau annhechnegol, gramadeg ac atalnodi gwael neu ganiatáu cyfrifiaduron gyda gwirwyr sillafu, trefnu ystafelloedd a goruchwyliaeth ar wahân, a chaniatáu defnyddio darllenydd neu ysgrifennydd
- addasiadau i asesiadau ymarferol, trwy ganiatáu sesiynau ymarfer ychwanegol, mwy o amser i'r myfyriwr ymgyfarwyddo â'r lleoliad neu i gyfweld, asesu a chofnodi gwybodaeth am gleifion, neu i ddefnyddio dyfais recordio ar gyfer trawsgrifio wedyn, trwy ganiatáu addasiadau i drefniant a nodweddion ffisegol yr ardal archwilio a thriniaeth – fel gofod ychwanegol neu oleuadau penodol – a chaniatáu defnyddio cymhorthion i hwyluso triniaethau
- addasiadau trwy ddarparu cymorth ychwanegol, er enghraifft ar ffurf tiwtorialau un-i-un neu gyfarwyddyd clinig ychwanegol, neu drwy addysgu sgiliau astudio a thechnegau dysgu, nodi myfyriwr arall fel 'cyfaill', neu gynnig mentora parhaus neu gymorth gydol y cwrs gan diwtor personol, cwnselydd myfyrwyr neu swyddog anabledd.

98 Mae rhai addasiadau wedi dod yn arfer safonol y gellir eu rhoi ar waith yn gyflym i fyfyrwyr ag anabledd y mae pobl yn ei ddeall yn dda, gan ddarparu budd syml ac uniongyrchol, ond ni ddylai'r ffaith bod addasiad ar gael yn rhwydd dynnu sylw oddi wrth yr egwyddor bod gan bob myfyriwr hawl i'w anghenion gael eu hystyried ar sail unigol.

99 Yn aml mae'n haws gwneud addasiadau i fyfyrwyr y mae eu hanabledd yn ddirnadwy, yn barhaol ac yn gymharol sefydlog – fel amhariad ar y clyw neu symudedd cyfyngedig. Gall fod yn fwy heriol diwallu anghenion myfyrwyr â chyflyrau anweledig neu gyfnewidiol. Mae

angen gofal i gydnabod ac ymateb yn briodol i gefnogi myfyrwyr y mae eu hanabledd neu gyflwr iechyd yn dod i'r amlwg yng nghanol y cwrs, o natur na ellir ei ragweld neu'n sy'n digwydd mewn pyliau, neu sy'n fwy agored i'r pwyntiau straen anochel sy'n gynhenid mewn unrhyw gwrs.

**Enghraifft o achos**

Roedd senario heriol a ddyfynnwyd gan nifer o ddarparwyr addysg osteopathig yn cynnwys myfyrwyr a oedd eisoes â chyflyrau hirdymor sefydlog, a oedd yn gwneud cynnydd boddhaol gydag addasiadau neu hebddynt, ond yr amharwyd ar eu cydbwysedd oherwydd newid yn eu cyflwr, neu newid yn y dull o reoli neu drin y cyflwr hwnnw. Gall dod o hyd i feddyginiaeth newydd neu well – lle caiff gwahanol ddosau neu gyfuniadau eu profi – darfu'n sylweddol ar y myfyriwr ac mae angen i diwtoriaid drin y sefyllfa mewn ffordd sensitif, yn enwedig er mwyn adnabod ac ymateb i amrywiadau mewn ymddygiad, blinder a'r gallu i ddysgu. Mae angen i diwtoriaid fod yn barod i wneud addasiadau mewn ffordd hyblyg nes bod cyflwr iechyd y myfyriwr o dan reolaeth unwaith eto. Dylai darparwyr addysg osteopathig ystyried anghenion hyfforddi staff i adnabod ymddygiadau o'r fath.

100 Mae her gysylltiedig yn ymwneud â'r myfyrwyr hynny sydd heb ddealltwriaeth lawn o natur neu effaith eu hanabledd, neu y mae eu dealltwriaeth wedi'i hamharu yn ysbeidiol. Mae'r myfyrwyr hynny, o ganlyniad, yn methu â chymryd y feddyginiaeth ragnodedig sy'n eu helpu i weithredu'n effeithiol. Gall sefyllfa debyg godi gyda myfyrwyr sydd ag amhariad corfforol hirdymor ac sydd, am unrhyw reswm, yn anghofio cymryd meddyginiaeth fel y rhagnodwyd neu'n dewis peidio â'i chymryd. Gall cydymffurfiaeth wael â chyfundrefn driniaeth arwain at ail bwl o salwch neu at weld y symptomau'n ailymddangos a gall hyn beryglu gallu gweithredol myfyriwr a'i allu i gymryd rhan lawn yn y cwrs.

101 Lle gellir gwneud addasiadau i gynorthwyo myfyrwyr yn y sefyllfaoedd hyn, er enghraifft trwy ragweld effaith bosibl pwyntiau straen fel arholiadau ac asesiadau, a thrwy drefnu cymorth ychwanegol ymlaen llaw, dylid rhoi'r rhain ar waith. Bydd bod yn effro i'r arwyddion rhybudd cynnar, fel symptomau'n ailymddangos neu newid mewn ymddygiad, hefyd yn helpu darparwyr i ymyrryd yn gynnar er mwyn atal argyfyngau, darparu cymorth ac arweiniad, a gwneud addasiadau, fel cytuno ar estyniadau i aseiniadau neu batrwm presenoldeb gwahanol. Fodd bynnag, disgwylir i fyfyrwyr ddangos ymwybyddiaeth o sut i reoli eu hanghenion iechyd neu anabledd, gan y bydd hyn yn angenrheidiol ar gyfer ymarfer annibynnol.

102 Mae'n bosibl y gall iechyd myfyriwr waethygu'n raddol i'r pwynt lle nad yw addasiadau bellach yn ddigon i'w alluogi i barhau i hyfforddi. Mewn rhai achosion, gellir trafod ymyriadau i'r hyfforddiant sy'n ddigon hir i'r myfyriwr adennill lefel iechyd sy'n cael ei hystyried yn ddigonol er mwyn ailymuno â'r cwrs ac i barhau â'r addysg. Dylai penderfyniadau ynghylch a ddylai myfyriwr gymryd amser i ffwrdd o'r cwrs gynnwys y myfyriwr, a gellir defnyddio mewnbwn gan wasanaethau iechyd galwedigaethol. Dylai'r darparwr addysg osteopathig fod yn glir wrth egluro pam y dylai'r myfyriwr gymryd amser i ffwrdd, a beth y disgwylir i'r myfyriwr ei wneud yn ystod y cyfnod hwn. Dylid ystyried ar y cam hwn hefyd sut y bydd y myfyriwr yn cael ei ailintegreiddio i'r cwrs yn ddiweddarach.

103 Bydd adegau pan fydd y darparwr addysg osteopathig a'r myfyriwr yn anghytuno ynghylch ai cymryd amser i ffwrdd o astudiaethau yw'r ffordd gywir o weithredu. Mewn amgylchiadau o'r fath, a phan nad yw trafodaethau yn arwain at ffordd ymlaen y cytunwyd arni, gellir cychwyn proses addasrwydd i ymarfer er mwyn sefydlu ffordd o weithredu sy'n deg ac yn annibynnol – gweler paragraffau 112-114.

104 Mewn achosion prin, efallai na fydd unrhyw ddewis arall ond i'r myfyriwr dynnu'n ôl o'r cwrs.

**Enghraifft o achos**

Mae tri myfyriwr osteopathi yn rhannu tŷ gyda'i gilydd. Yng nghanol Blwyddyn 2, mae dau o'r myfyrwyr yn sylwi'n raddol bod Chris, y trydydd myfyriwr, yn arddangos ymddygiad obsesiynol-gorfodaethol cynyddol – glanhau ac ail-lanhau'n barhaus, mynnu bod eitemau'r cartref yn cael eu trefnu mewn ffordd benodol, gwirio ac ailwirio bod y tŷ wedi'i gloi. Mae ei ymddygiad yn arwain at ddrwgdeimlad rhwng y cyd-letywyr, sydd wedi'i waethygu gan y straen cyffredinol o arholiadau'n agosáu. Un noson, mae'r sefyllfa'n cyrraedd penllanw dros fater domestig dinod, ac mae'n ymddangos i'r gweddill bod Chris yn gorymateb yn llwyr, ac mae'n ymddwyn yn gythryblus. Wrth i'r sefyllfa dawelu, mae Chris yn dweud wrth y lleill bod ganddo broblemau iechyd yn ei arddegau ac yn y cyfnod cyn Safon Uwch a'i fod wedi bod dan ofal seiciatrydd ymgynghorol, a oedd wedi rhagnodi meddyginiaeth a chyrsiau CBT, ac roedd y pethau hynny wedi ei helpu i deimlo fod ganddo rywfaint o reolaeth; roedd wedi cael canlyniadau da yn ei arholiadau terfynol yn yr ysgol. Wrth adleoli i ymgymryd â'r cwrs osteopathi, roedd y CBT wedi dod i ben, nid oedd ar feddyginiaeth bellach ac nid oedd wedi gweld ei ymgynghorydd ers dwy flynedd a mwy. Roedd yn gallu teimlo hen batrymau ymddygiad yn dychwelyd felly roedd wedi bod i weld meddyg teulu newydd yn lleol, ond mae'n dal i aros am apwyntiad i weld cwnselydd. Mae Chris yn dweud wrth ei gyd-letywyr bod y straen yn dod yn ormod a'i fod yn cael trafferth ymdopi. Mae ei gyd-letywyr yn perswadio Chris i siarad â'i swyddog lles myfyrwyr am ei gyflwr meddwl presennol a phroblemau iechyd yn y gorffennol, ac mae Chris yn gwneud hynny. Yn y coleg, awgrymir bod Chris yn cymryd amser i ffwrdd i chwilio am y cymorth sydd ei angen arno. Mae'n dychwelyd at ei rieni am chwe wythnos, ac yn ystod y cyfnod hwnnw mae'n derbyn triniaeth yn yr un lle ag yr oedd yn arfer gwneud. Ar ôl yr amser hwn i ffwrdd, mae Chris yn teimlo ei fod yn gallu dychwelyd ac mae ei feddylfryd mewn lle llawer gwell ac mae'n gweithio ar strategaethau i leihau gorbryder a gwirio gorfodaethol. Mae Chris wedi bod yn astudio tra roedd i ffwrdd hefyd i ryw raddau ond, gyda chefnogaeth ei feddyg teulu, mae'n cael estyniad gan y coleg er mwyn ymgymryd ag asesiadau Blwyddyn 2 ym mis Awst, yn hytrach nag ym mis Mehefin.

## Dychwelyd i gwrs

105 Pan fydd myfyrwyr yn cymryd amser i ffwrdd o gwrs, mae'n bwysig bod y broses ddychwelyd yn digwydd mewn ffordd sensitif ac effeithiol. Efallai y bydd y myfyriwr yn ei chael hi'n anodd dychwelyd i garfan wahanol o fyfyrwyr, neu'n teimlo y bydd yn cael ei stigmateiddio os bydd pobl yn darganfod pam y bu'n rhaid iddo gymryd amser i ffwrdd.

106 Dylai darparwyr addysg osteopathig gael cynllun ailintegreiddio unigol ar gyfer pob myfyriwr yn yr amgylchiadau hyn. Dylid cytuno ar hyn ymhell cyn i'r myfyriwr ddychwelyd, gan nodi disgwyliadau clir, fel bod y broses ailintegreiddio yn cael ei rheoli'n dda.

107 Yn wahanol i fyfyrwyr ar lawer o gyrsiau addysg uwch lle mae ynysu mewn grwpiau mawr yn fwy cyffredin, mae myfyrwyr mewn addysg a hyfforddiant osteopathig yn cael y fantais o fod yn rhan o grŵp cymharol fach o fyfyrwyr, gan gael cyswllt rheolaidd â staff tiwtorial. Yn hyn o beth, gellir yn aml adnabod y rhai sy'n wynebu anawsterau yn gyflym ac fel arfer cânt eu cefnogi'n dda. I'r gwrthwyneb, mae'n bwysig cydnabod y gall natur gyfarwydd yn ogystal ag agweddau corfforol addysg osteopathig fod yn heriol i rai myfyrwyr, yn enwedig y rhai sydd ag anableddau neu gyflyrau iechyd meddwl.

108 Mae system tiwtor personol sy'n darparu cefnogaeth barhaus trwy gydol y cwrs, sesiynau goruchwylio rheolaidd a chyfarfodydd cynnydd gyda myfyrwyr, a chael cyd-fyfyrwyr sy'n gwybod, yn deall ac yn derbyn yr anawsterau cynyddol ac yn effro iddynt, i gyd yn ffyrdd posibl o leddfu effaith cyflyrau iechyd cyfnewidiol.

## Polisïau addasrwydd i astudio

109 Mae prosesau addasrwydd i astudio yn cael eu defnyddio'n helaeth ym maes addysg uwch. Maen nhw'n helpu i asesu risgiau ac i gymryd camau pan fo iechyd, ymddygiad neu amgylchiadau eraill myfyriwr yn peri pryder. Gall pryderon o'r fath gynnwys gallu'r myfyriwr i gymryd rhan yn ei astudiaethau ac a fyddai hynny yn peri risg iddo ef ei hun neu i eraill.

110 Mae gweithdrefnau addasrwydd i astudio fel arfer yn cynnwys sawl cam, a nod ymyrraeth gynnar yw nodi'r mater a chynnig cymorth priodol. Os yw'r materion sy'n achosi pryder yn parhau, mae'r cam nesaf yn debygol o gynnwys proses fwy rhagweithiol a ffurfiol er mwyn asesu amgylchiadau'r myfyriwr, a phenderfynu sut y gellid rheoli hyn orau.

111 O fewn darparwyr addysg osteopathig, mae'n debygol y bydd gweithdrefnau addasrwydd i astudio ac addasrwydd i ymarfer yn gorgyffwrdd: gall methiant ymyrraeth gynnar o dan broses addasrwydd i astudio arwain at ymchwiliad addasrwydd i ymarfer.

112 Darperir canllawiau ar iechyd a lles myfyrwyr addysg uwch gan **Universities UK**.

## Addasrwydd myfyrwyr i ymarfer

113 Pan fydd myfyriwr ag anabledd neu gyflwr iechyd yn methu â rheoli ei gyflwr yn iawn, er gwaethaf addasiadau a chefnogaeth, gall cwestiwn godi ynghylch ei addasrwydd i ymarfer. Darperir **canllawiau** gan y Cyngor Osteopathig Cyffredinol i fyfyrwyr a darparwyr addysg osteopathig.

114 Dylai darparwyr addysg osteopathig fod â pholisïau addasrwydd i ymarfer ar waith, lle gellir ymchwilio a rheoli pryderon difrifol ynghylch addasrwydd myfyriwr i ymarfer. Materion i'w hystyried o dan weithdrefnau o'r fath fyddai:

- y rhai sy'n effeithio ar ddiogelwch cleifion
- y rhai a allai effeithio ar yr ymddiriedaeth y mae'r cyhoedd yn ei rhoi yn y proffesiwn osteopathig.

115 Dylai darparwyr addysg osteopathig fod â phrosesau ar waith hefyd i ganfod problemau ymddygiad a allai arwain at bryderon addasrwydd i ymarfer. Gallai'r rhain gynnwys:

- presenoldeb gwael mewn darlithoedd
- cyflwyno gwaith cwrs yn hwyr
- diffyg ymgysylltu â'r cwrs
- ymddygiad ymosodol
- cyfathrebu gwael â staff a/neu gleifion.

116 Gyda'i gilydd, gallai'r rhain fod yn bryderon addasrwydd i ymarfer, ond hefyd fod yn ddangosyddion bod y myfyriwr yn cael trafferth yn gyffredinol, neu fod ganddo gyflwr iechyd meddwl. Gall prosesau monitro fod yn ffordd o nodi problemau iechyd meddwl posibl, fel y gellir rhoi camau priodol ar waith cyn gynted â phosibl.

## Hybu llesiant

117 Dylai darparwyr addysg osteopathig hyrwyddo lles ymhlith eu holl fyfyrwyr, nid dim ond y rhai ag anableddau neu gyflyrau iechyd. Gallai enghreifftiau o sut y gallant wneud hyn gynnwys y canlynol:

- cyflwyno ymarferion grŵp sy'n canolbwyntio ar reoli straen
- darparu adnoddau ar gynnal ffyrdd iach o fyw
- prosesau cymorth dysgu i helpu myfyrwyr i ddatblygu eu sgiliau astudio a all eu helpu i weithio'n fwy effeithiol a thrwy hynny leihau straen
- cynlluniau mentora cyd-fyfyrwyr neu gyfeillio i ddarparu cefnogaeth.

## Cyflawni cymhwyster cydnabyddedig

118 Bydd gan ddarparwyr addysg osteopathig reoliadau ynghylch asesu, cynnydd a graddio myfyrwyr, sy'n ymgorffori proses o arddangos y safon cymhwysedd a bennir gan y **Safonau Ymarfer Osteopathig**. Cyfrifoldeb y darparwyr yw penderfynu a yw myfyriwr yn bodloni'r safon hon ac a ddyfernir cymhwyster cydnabyddedig iddo. Mae hon yn safon trothwy na ellir ei hamrywio. Rhan angenrheidiol o'r broses addysgol yw asesu ymddygiad ac agweddau proffesiynol myfyrwyr.

119 Os oes tystiolaeth y gallai addasrwydd myfyriwr i ymarfer gael ei gyfaddawdu, dylid cychwyn gweithdrefnau addasrwydd i ymarfer ac adrodd y canlyniad i'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol. Os yw myfyriwr yn methu â dangos y safon sy'n ofynnol erbyn diwedd y rhaglen, ni ddylid dyfarnu cymhwyster cydnabyddedig iddo. Mewn rhai amgylchiadau, fel pan fo pryderon parhaus am agweddau ar ymddygiad proffesiynol, efallai y byddai'n briodol ystyried dyfarnu cymhwyster amgen nad oes ganddo statws cymhwyster cydnabyddedig ac na all arwain at gofrestru gyda'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol. Fodd bynnag, ni all darparwr addysg osteopathig wrthod rhoi cymhwyster i fyfyriwr sydd wedi dangos ei fod wedi cyflawni'r safon cymhwysedd, ar sail dyfalu sut y gallai ymddwyn fel osteopath cofrestredig.

120 Os oes gan osteopath anabledd neu gyflwr iechyd, nid yw'r GOsC yn cadw'r wybodaeth hon ar ein Cofrestr; nid ydym ychwaith yn gosod unrhyw gyfyngiad ar y modd y dylai osteopathi gael ei ymarfer gan osteopath sydd newydd ei gofrestru. Mae penderfyniad i ddyfarnu cymhwyster cydnabyddedig gan ddarparwr addysg yn golygu, ym marn y sefydliad, bod myfyriwr yn gallu ymarfer yn unol â'r safonau a nodir yn y Safonau Ymarfer Osteopathig. Unwaith y bydd unigolyn ar y Gofrestr GOsC, mae'n gyfrifol am gynnal safonau ymarfer proffesiynol.

121 Os yw osteopath yn datblygu anabledd neu gyflwr iechyd wedi hynny sy'n ei atal rhag ymgymryd â'r ystod lawn o weithgareddau ac ymyriadau osteopathig mewn ffordd annibynnol, ddiogel ac effeithiol, dyletswydd yr osteopath yw addasu ei waith yn unol â hynny er mwyn sicrhau ei fod yn gallu ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol a chydymffurfio ag amrywiaeth lawn y **Safonau Ymarfer Osteopathig**. Gallai hyn, er enghraifft, ei gwneud yn ofynnol symud i weithio mewn practis grŵp lle byddai cydweithwyr ar gael i ddarparu cymorth neu ddirprwyo, neu drwy gyfyngu ymarfer i ddull mwy cyfyngedig a thrwy beidio â chyflawni technegau penodol – ar yr amod nad yw hyn yn camarwain y cyhoedd ynglŷn â chwmpas yr osteopathi a ddarperir. Dylai osteopathiaid sy'n weithwyr uniongyrchol drafod addasiadau rhesymol gyda'u cyflogwr.

# Adran 5: Rhagor o wybodaeth

Mae ffynonellau rhagor o wybodaeth a chanllawiau wedi'u rhestru isod:

**Action on Hearing Loss**
**www.actiononhearingloss.org.uk/**

**Cymdeithas Dyslecsia Prydain**
**www.bdadyslexia.org.uk**

**Disability Rights UK**
Deall y Ddeddf Cydraddoldeb:
**www.disabilityrightsuk.org**

**Mind**
**www.mind.org.uk**

**Mind Cymru**
**www.mind.org.uk**

**Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall**
**www.rnib.org.uk**

**Y Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC)**
Mae'r GMC yn cynnig amrywiaeth o adnoddau sydd â'r nod o gefnogi myfyrwyr meddygol sydd â **chyflyrau iechyd meddwl** ac **anableddau**. Gallai'r rhain fod yn ddefnyddiol mewn cyd-destun osteopathig hefyd. Mae gan y GMC **nifer o swyddfeydd** ledled y DU.

**Y Cyngor Osteopathig Cyffredinol**
**www.osteopathy.org.uk**

**Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo ar Gydraddoldeb**
Mae'r Llinell Gymorth yn cynghori ac yn cynorthwyo unigolion ar faterion sy'n ymwneud â chydraddoldeb a hawliau dynol, ledled Cymru, Lloegr a'r Alban.
**www.equalityadvisoryservice.com/app/home**

**Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol**
Mae gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol gylch gwaith statudol i hyrwyddo a monitro hawliau dynol ac amddiffyn, gorfodi a hyrwyddo cydraddoldeb ar draws y nodweddion gwarchodedig. Mae ar gael yma:
**www.equalityhumanrights.com**

**Universities UK**
Wedi cyhoeddi'r **Canllaw Arfer Da ar Les Myfyrwyr mewn Addysg Uwch**

**Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol (OIA)**
Mae'r OIA yn gorff annibynnol, wedi'i sefydlu i ymdrin â chwynion myfyrwyr. Am ddim i fyfyrwyr, mae'r OIA yn ymdrin â chwynion yn erbyn darparwyr addysg uwch yng Nghymru a Lloegr ac yn darparu achosion achos defnyddiol am addasiadau rhesymol hefyd a allai fod o gymorth i ddarparwyr:
**oiahe.org.uk** a **https://www.oiahe.org.uk/resources-and-publications/good-practice-framework/requests-for-additional-consideration/disability-and-requests-for-additional-consideration/**

### Directgov
I gael gwybodaeth am y **Lwfans i Fyfyrwyr Anabl.**.

### Swyddfa Cydraddoldebau'r Llywodraeth
Mae gan Swyddfa Cydraddoldebau'r Llywodraeth (sydd yn y Swyddfa Gartref) gyfrifoldeb ar draws y Llywodraeth am strategaeth a deddfwriaeth cydraddoldeb. Mae ar gael yma: **homeoffice.gov.uk**

### Canllaw i Ddysgu yn Seiliedig ar Ymarfer ar gyfer Myfyrwyr Niwrowahanol:
**www.hee.nhs.uk**

### Y Swyddfa Fyfyrwyr
Amrywiaeth o **adnoddau a gwybodaeth** i gefnogi darparwyr addysg i ddiwallu anghenion iechyd meddwl myfyrwyr.

### Transforming Access and Student Outcomes in Higher Education
**taso.org.uk**

### Deddfwriaeth

- **Deddf Cydraddoldeb 2010**
- Nodiadau esboniadol ar gyfer y **Ddeddf Cydraddoldeb 2010**
- **Deddf Osteopathiaid 1993**

Cyngor
Osteopathig
Cyffredinol

Y Cyngor Osteopathig Cyffredinol
Osteopathy House
176 Tower Bridge Road
Llundain SE1 3LU

020 7357 6655
info@osteopathy.org.uk
**osteopathy.org.uk**

Mae'r GOsC yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (1172749)